


Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 55/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2025

Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: anghenion tystiolaethol heb eu diwallu



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg.

This document is also available in English.

Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: anghenion tystiolaethol heb eu diwallu

Awdur: Dr Daniel Burley

Adroddiad Ymchwil Llawn: Burley, D. (2025). Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: anghenion tystiolaethol heb eu diwallu Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 55/2025.

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol-anghenion-tystiolaethol-heb-eu-diwallu>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o reidrwydd, rai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: SchoolsResearch@gov.wales

Tabl cynnwys

Geirfa 2

1.	Cyflwyniad a chefnidir	3
1.1	Gweithgarwch ymchwil a gwerthuso	5
1.2	Nodau'r adroddiad	8
2.	Anghenion tystiolaethol heb eu diwallu	9
2.1	Cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu â chymuned yr ysgol gyfan	10
2.2	Llesiant staff ysgolion	11
2.3	Anghenion hyfforddiant a chymorth staff ysgolion	11
2.4	Diwylliant ac amgylchedd ysgolion	12
2.5	Blaenoriaethu ysgolion ac adnoddau i gefnogi cyflawni	13
2.6	Partneriaethau ysgol gyda gwasanaethau cymorth	14
2.7	Alinio'r gwaith o gyflawni â strategaethau addysg ac iechyd	15
2.8	Cyflawni ar draws pob lleoliad addysg	16
3.	Prif ffynonellau data a chyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion tystiolaethol heb eu diwallu	16
3.1	Mireinio arolygon yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion	17
3.2	Casglu gwybodaeth gan ystod ehangach o aelodau cymuned yr ysgol	17
3.2.1	Arolygon ar gyfer staff ysgolion	17
3.2.2	Arolygon i rieni	19
3.3	Casglu gwybodaeth gan ymarferwyr sy'n cefnogi ysgolion	20
3.4	Defnyddio data ar lefel genedlaethol	21
3.4.1	Llesiant staff ysgolion	21
3.4.2	Llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr	21
3.5	Defnyddio ffynonellau data lleol	22
3.6	Gwneud y mwyaf o gyfleoedd cysylltu data	23
4.	Casgliadau a'r camau nesaf	23
5.	Atodiad 1: Mapio gweithgareddau ymchwil a gwerthuso	26
5.1	Gweithgareddau	26
5.2	Mecanweithiau	31
5.3	Canlyniadau tymor byr / canolig	33
5.4	Canlyniadau hirdymor	35

Geirfa

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn cynnig cymysgedd o wasanaethau arbenigol gofal sylfaenol ac eilaidd y GIG i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl fel y'u diffinnir gan Fesur Iechyd Meddwl 2010. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig asesiad a thriniaeth pan fydd gan blant a phobl ifanc anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo llesiant emosiynol a gwasanaethau a thriniaeth ataliol ar gyfer iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Gellir cyfeirio plant a phobl ifanc a'u teuluoedd at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc os ydynt yn ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd teuluol, yr ysgol neu'r byd ehangach.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yw'r asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol sy'n gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant yn ogystal â lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ariannu fel y corff cyflawni i weithredu'r [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#).

Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs)

Mae unedau cyfeirio disgyblion yn lleoliad addysgol amgen i addysg brif ffrwd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn bartneriaeth polisi-ymarfer-ymchwil rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yw gwella iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru drwy weithio gydag ysgolion mewn addysg gynradd ac uwchradd i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da ar gyfer gwella iechyd. Mae hyn yn cynnwys cipio data iechyd a llesiant cadarn drwy arolygon ar lefel dysgwyr ac ysgolion.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y '[Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#)' (Welsh Government, 2021) (y cyfeirir ato fel 'y Fframwaith' wedi hynny) ym mis Mawrth 2021 fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethu lleoliadau addysg a gynhelir (y cyfeirir atynt wedi hynny fel ysgolion): meithrinfeydd, cynradd, uwchradd, canol (pob oed), unedau cyfeirio disgyblion (PRUs), ysgolion arbennig ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

Nod y Fframwaith yw darparu cyfeiriad a thempled i ysgolion ddatblygu, gweithredu a gwreiddio eu dull ysgol gyfan eu hunain o ran llesiant emosiynol a meddyliol (y cyfeirir ato fel 'dull ysgol gyfan' wedi hynny) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion llesiant emosiynol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal â staff ysgolion fel rhan o gymuned yr ysgol gyfan. Mae'n darparu proses ddifiniedig i ysgolion ei datblygu a'u dull ysgol gyfan. Yn gyntaf, mae ysgolion yn asesu eu hanghenion a'u cryfderau drwy gasglu mewnwelediadau o amrywiaeth o ffynonellau, megis arsylwi uniongyrchol a barn rhanddeiliaid. Gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon, maent yn symud ymlaen i gynllunio a gweithredu camau gweithredu, gan greu cynllun sy'n mynd i'r afael â bylchau ac yn adeiladu ar gryfderau. Mae hyn yn cynnwys cymysgedd o ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth dargededig i gefnogi pob dysgwr a staff, gan weithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol. Yn olaf, drwy werthuso, mae ysgolion yn adolygu effeithiolrwydd eu dull gweithredu, gan ystyried gwersi allweddol mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc. Mae myfyrio a gwella wedi'u hymgorffori yn y trefniadau perfformiad presennol gan ddod yn barhaus a chynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i weithredu fel y corff cyflawni i weithredu'r Fframwaith ledled Cymru. [I gefnogi'r ddarpariaeth mewn ysgolion, cyhoeddodd lechyd Cyhoeddus Cymru offeryn hunanasesu dull ysgol gyfan a chanllawiau cysylltiedig yn 2022](#). Mae'r offeryn hunan-ddadansoddi yn defnyddio cwestiynau allweddol o'r Fframwaith ac yn rhoi man cychwyn i ysgolion ar gyfer datblygu eu dull gweithredu. Mae cwblhau'r hunanasesiad yn cynnwys tynnu ar sawl ffynhonnell dystiolaeth ynghylch iechyd emosiynol a llesiant meddyliol. Ar ôl nodi meysydd i'w gwella, dylai ysgolion eu blaenoriaethu mewn cynlluniau gweithredu y gellir eu hintegreiddio i gynlluniau datblygu a gwella ysgolion ehangach. Bydd y broses hon ar gyfer ysgolion yn un hirdymor a dylai'r dull a gymerir fod yn un o welliant parhaus.

Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i lechyd Cyhoeddus Cymru yn cwmpasu darparu cydlynwyr gweithredu dull ysgol gyfan lleol o fewn pob bwrdd ieched. Mae'r cydlynwyr hyn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu a gweithredu eu dull ysgol gyfan. Maent hefyd yn casglu gwybodaeth reolaidd am y cam y mae pob ysgol wedi'i gyrraedd o ran datblygu a chyflawni eu dull ysgol gyfan. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu'r wybodaeth hon i mewn i ddangosfwrdd ar-lein ar lefel genedlaethol ac mae'r data hwn yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru i fonitro cyflawniad y Fframwaith.

Mae cydlynwyr gweithredu hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau tîm o [Rwydwaith cenedlaethol Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant Cymru \(ICC\)](#) (y cyfeirir ato fel Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant wedi hynny), a elwid gynt yn Gynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Mae rhaglen Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant yn fframwaith cenedlaethol o

gynlluniau ysgolion iach lleol gyda chyfrifoldebau cenedlaethol a lleol. Mae pob cynllun lleol yn gyfrifol am gefnogi datblygiad ysgolion sy'n hybu iechyd yn eu hardal. Yr uchelgais yw cefnogi ysgolion yng Nghymru i fod yn hyrwyddo iechyd. [Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio ysgol sy'n hyrwyddo iechyd fel 'ysgol sy'n cryfhau ei gallu'n gyson fel lleoliad iach ar gyfer byw, dysgu a gweithio'](#).

Cyflwynodd rhaglen Ysgolion sy'n hybu iechyd a Llesiant y Wobr Ansawdd Genedlaethol a aseswyd yn annibynnol yn 2009 a chyhoeddwyd dangosyddion ar gyfer y wobr yn 2010. Roedd y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn cydnabod ysgolion a ddangosodd safonau rhagorol mewn iechyd a llesiant, gan gynnwys cyflawni dull ysgol gyfan o gefnogi iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol. Y Wobr Ansawdd Genedlaethol oedd y gydnabyddiaeth uchaf y gallai ysgol ei hennill drwy'r rhaglen Ysgolion sy'n hybu iechyd a Llesiant. Derbyniodd pymtheg y cant o ysgolion y wobr yng Nghymru cyn i asesuadau yn erbyn meini prawf y Wobr Ansawdd Genedlaethol ddod i ben ar 31 Mawrth 2024.

[Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru set arfaethedig o safonau cenedlaethol ar gyfer Ysgolion sy'n hybu iechyd a Llesiant](#) ym mis Chwefror 2025 i ddisodli'r Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r safonau hyn yn canolbwyntio ar egwyddorion craidd dull ysgol gyfan ac yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Fframwaith i gefnogi ysgolion i ymgorffori a datblygu eu dull ysgol gyfan yn gynaliadwy mewn ffordd sy'n cefnogi eu dysgwyr orau. Bydd ysgolion yn gallu cyflawni achrediad ar draws tair lefel (dechrau, ymgorffori, a safonau a gyflawnwyd a gwella'n barhaus). Bydd ysgolion sydd wedi cwblhau eu hunanasesiad o'r dull ysgol gyfan a'r cynlluniau gweithredu dilynol wedi gwneud cynnydd da i gyflawni'r drydedd lefel. Yn ogystal, cafodd cydrannau craidd a nodwyd o'r safonau eu mapio i bolisiâu a fframweithiau addysg ac iechyd allweddol yng Nghymru (e.e., ysgolion bro, Cwricwlwm i Gymru) er mwyn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r safonau arfaethedig i'w helpu i gyflawni ystod o nodau polisi iechyd ac addysg a rennir. Goruchwyliodd Bwrdd y Rhaglen Ysgolion sy'n hybu iechyd, bwrdd amlasiantaeth cenedlaethol gyda chynrychiolaeth o ysgolion, iechyd, addysg, y byd academiaidd, a Llywodraeth Cymru, ddatblygiad y safonau hyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu 'Pecyn Cymorth Beth Sy'n Gweithio' i helpu ysgolion i wneud penderfyniadau gwybodus wrth ddewis ymyriadau i wella a hyrwyddo llesiant meddyliol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyfres o adolygiadau sy'n crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael ar effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cefnogi llesiant emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol. I lywio'r pecyn cymorth, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi archwilio'r dystiolaeth orau sydd ar gael am ystod o ymyriadau i ddarganfod beth sy'n effeithiol wrth wella canlyniadau llesiant meddyliol a/neu emosiynol dysgwyr, neu staff ysgolion, pan gânt eu cyflawni mewn lleoliad ysgol. [Mae crynodebau am Gynorthwyyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, y Rhaglen Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion, ac Ymarfer Adferol wedi'u cyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#). [Mae crynodebau pellach am amrywiaeth o ymyriadau eraill ar gael ar Hwb](#) (ystorfa o adnoddau ar gyfer lleoliadau addysg a redir gan Lywodraeth Cymru).

Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogi'r gwaith o gyflawni a chydlynu gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion (y cyfeirir ato fel Mewngymorth CAMHS) Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Nod Mewngymorth CAMHS yw meithrin capasiti mewn ysgolion i gefnogi anghenion iechyd a llesiant meddyliol

plant a phobl ifanc a staff yn well. Yn benodol, amcanion Mewngymorth CAMHS (yn ystod ei gyfnod peilot) oedd:

- cefnogi athrawon i ddeall a chydabod problemau iechyd meddwl yn ystod plentyndod yn well, a sut i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn
- sicrhau mynediad at wasanaethau priodol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl mwy heriol neu ddifrifol, fel CAMHS neu wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol
- sicrhau bod systemau'n cael eu sefydlu i rannu gwybodaeth a threfniadau gofal a rennir rhwng CAMHS ac ysgolion ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth mwy dwys, a bod protocolau uwchgyfeirio ar waith yn ôl anghenion y person ifanc

[Cyflwynwyd Mewngymorth CAMHS ledled Cymru, fel yr amlinellwyd yn Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad](#) ym mis Mehefin 2021. Roedd hyn yn dilyn cynllun peilot o'r rhaglen o fis Medi 2018 i haf 2021 a gynhaliwyd mewn tair ardal: De a Chanolbarth Cymru (Blaenau Gwent, Torfaen a De Powys), Gorllewin Cymru (Ceredigion), a Gogledd Cymru (Wrecsam a Sir Ddinbych). [Cyhoeddwyd gwerthusiad o gynllun peilot Mewngymorth CAMHS ym mis Mehefin 2021](#). Canfu'r gwerthusiad hwn fod y rhaglen wedi cael derbyniad da gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill a'i bod yn effeithiol wrth wella sgiliau a hyder staff wrth ddelio ag anghenion iechyd meddwl a llesiant dysgwyr. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r gwasanaeth ledled Cymru gyda phob bwrdd iechyd yn gweithredu tîm Mewngymorth CAMHS, ac ariannwyd iechyd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cydgyssylltu cenedlaethol.

1.1 Gweithgarwch ymchwil a gwerthuso

Mae heriau clir i nodi cyfraniad achosol y Fframwaith ar gyfer canlyniadau rhaglenni, oherwydd amserlenni gweithredu gwahanol a newidiadau i gyd-destun yn dilyn diwygiadau addysgol ehangach (e.e., Cwricwlwm i Gymru, diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, strategaethau adfer ar ôl y coronafeirws [COVID-19]. Yn ogystal, mae canlyniadau rhaglenni fel llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn gymhleth ac yn cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau amlochrog a chydgyssylltiedig sy'n ei gwneud hi'n anodd ynysu effaith uniongyrchol un rhaglen. Mae tystiolaeth o raglenni presennol yn cefnogi'r cysylltiad rhwng ansawdd y gweithredu a'r canlyniadau a fwriadwyd ([Dix, Slee, Lawson, a Keeves, 2012](#)). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd canolbwyntio ar brosesau gweithredu, ochr yn ochr â chasglu data canlyniadau llesiant ac iechyd meddwl tymor hwy, er mwyn archwilio effaith y Fframwaith.

Mae ystod o weithgarwch ymchwil a gwerthuso sydd wedi ymchwilio neu sy'n ymchwilio i gyflawniad ac effaith y Fframwaith ar hyn o bryd. Amlinellir y prif weithgareddau ymchwil isod.

Ar ran Llywodraeth Cymru, datblygodd Prifysgol Caerdydd ddamcaniaeth raglen a chynhaliodd asesiad gwerthusol o'r dull ysgol gyfan a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 ([Brown, et al., 2022](#)). Arweiniodd hyn at fodel rhesymeg a oedd yn amlinellu'r cydrannau a'r

prosesau damcaniaethol y gallai'r rhaglen dull ysgol gyfan arwain at y canlyniadau bwriadedig drwyddynt. Bwriad y tîm ymchwil oedd i'r model rhesymeg hwn fod yn ddamcaniaeth raglen sy'n dod i'r amlwg y gellid ei diwygio wrth i dystiolaeth werthuso gael ei chasglu.

[Mae'r Ganolfan Wolfson ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynnal gwerthusiad dulliau cymysg 3 blynedd o'r Fframwaith tan fis Mawrth 2026.](#) Eu prif nod yw asesu effaith y Fframwaith ar lesiant meddyliol ac emosiynol pobl ifanc yng Nghymru. Bydd y gwerthusiad yn asesu effaith y Fframwaith fel catalydd ar gyfer newid ar gyfer polisïau ac arferion ysgolion. Bydd yn archwilio'r systemau iechyd ac addysg ehangach sy'n gweithredu o amgylch ysgolion, iechyd meddwl dysgwyr a'u profiad o'r ysgol, a'r graddau y mae rhanddeiliaid a'r rhai mewn rolau cefnogol y tu allan i ysgolion yn deall sut mae'r Fframwaith yn cael ei gyflawni.

[Cyhoeddodd y tîm ymchwil yng Nghanolfan Wolfson bapur ym mis Ebrill 2023 yn manylu ar y fethodoleg ar gyfer eu gwerthusiad o'r Fframwaith.](#) Bydd y gwerthusiad yn cyfuno dulliau cymysg gan gynnwys dadansoddi dogfennau, cyfweiliadau â rhanddeiliaid, astudiaethau achos manwl o ysgolion, a dadansoddiad o ddata arolygon i archwilio gweithrediad ac effeithiau'r Fframwaith. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd y tîm ymchwil yn diweddarau model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan i adlewyrchu'r ddealltwriaeth sy'n esblygu o brosesau, canlyniadau ac unrhyw addasiadau a wneir yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn y Fframwaith.

Bydd y gwerthusiad hwn yn defnyddio data o'r [Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#) (SHRN) i gefnogi ei amcanion. Mae SHRN yn bartneriaeth polisi-ymarfer-ymchwil rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod SHRN yw casglu data iechyd a llesiant cadarn o ysgolion drwy arolwg dysgwyr (Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr). Gwahoddir ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Rhwydwaith Iechyd a Llesiant hefyd i ddarparu gwybodaeth am yr ysgol drwy'r Holiadur Amgylchedd Ysgol, sy'n canolbwyntio ar bolisïau iechyd a llesiant yr ysgol, yr amgylchedd a phartneriaethau allanol. Darperir ymatebion i'r Holiadur Amgylchedd Ysgol (SEQ) gan aelod o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol neu gynrychiolydd a benodwyd gan yr ysgol.

Ar ôl cyfnod o ddatblygu i sefydlu'r rhwydwaith a ddechreuodd yn 2013, mae SHRN wedi casglu mesurau allweddol o lesiant, iechyd meddwl ac ystod eang o ddata sy'n canolbwyntio ar iechyd ac addysg ers 2017. Yn 2023, recriwtiodd SHRN 100% o ysgolion uwchradd prif ffrwd a gynhelir i'w rhwydwaith, gyda 95% o'r ysgolion hyn a thros 70% o ddysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o gasglu data. Dychwelodd mwy na 90% o dimau uwch arweinyddiaeth ysgolion Holiadur Amgylchedd Ysgol hefyd.

Mae SHRN hefyd wedi ehangu i ysgolion cynradd. Yn 2024, cofrestrodd 53% o ysgolion cynradd i gymryd rhan yn y cyflwyniad cenedlaethol cyntaf o arolwg ysgolion cynradd SHRN. Cesglir data o ysgolion uwchradd a chynradd bob dwy flynedd mewn blynnyddoedd eraill. [Mae data ac adroddiadau cenedlaethol wedi cael eu cynhyrchu gan dîm SHRN ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n manylu ar ganfyddiadau dethol o SHRN.](#) Yn ogystal, [cyhoeddwyd dangosfwrdd ar-lein gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2024 sy'n arddangos canfyddiadau ar gyfer rhai mesurau allweddol o'r SHRN ar gyfer plant ysgol uwchradd.](#)

Mae'r SHRN yn darparu'r ffynhonnell ddata fwyaf cadarn ar gyfer asesu newidiadau hydredol mewn iechyd a llesiant ymhlith ysgolion uwchradd gan fod data'n cael ei gasglu o sampl fawr a chynrychioliadol o ddysgwyr ac uwch arweinwyr ysgolion bob dwy flynedd. Mae SHRN yn cynnig data sylfaenol cyn cyflwyno'r Fframwaith sy'n caniatáu cymariaethau dros amser a all helpu i nodi tueddiadau a mesur effaith y Fframwaith, tra bod ei ddull aml-lefel yn cipio safbwyntiau dysgwyr ac uwch arweinwyr ysgolion. Bydd ymestyn SHRN i ysgolion cynradd yn caniatáu monitro newidiadau yn y dyfodol ac mae data o 2019 ar gael cyn cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer cymharu, er bod maint y sampl yn llai ar gyfer camau cynharach gan fod yr arolwg yn cael ei gyflwyno fel rhan o brofion dichonoldeb.

[Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal gwerthusiad proses sy'n archwilio gweithrediad y Fframwaith](#), gan gynnwys defnyddio eu hofferyn hunanasesu dull ysgol gyfan, ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiannol hwn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad a chynllunio'r rhaglen. Mae allbynnau'r gwerthusiad ar ffurf adroddiadau dysgu unigol sy'n canolbwyntio ar wahanol gamau neu bynciau o fewn ymgorffori'r Fframwaith.

[Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr adroddiad dysgu cyntaf yn 2023 yn edrych ar sut mae ysgolion yn ymgorffori hunanwerthusiad dull ysgol gyfan i ddeall anghenion a chryfderau cymuned eu hysgol](#). Roedd yr ymchwili yn cynnwys cyfweiliadau â chydlynwyr gweithredu ac aelodau o'r uwch dimau arweinyddiaeth o ysgolion a oedd yn ymwneud â'r cydlynwyr, adolygiad o ddogfennau'r ysgol, ac arolygon a chyfweiliadau ar lefel ysgolion. Nodwyd sawl thema allweddol a oedd yn gysylltiedig â sefydlu hunanasesiad o'r dull ysgol gyfan yn llwyddiannus: Diwylliant ac ethos yr ysgol, arweinyddiaeth, cyfranogiad ac ymgysylltiad yr ysgol gyfan, a chymhwysio dulliau gwella parhaus.

[Cyhoeddwyd ail adroddiad dysgu yn 2024 yn archwilio'r ffactorau a oedd yn bwysig wrth helpu ysgolion i gynllunio a gweithredu camau llesiant yn llwyddiannus](#). Canfu'r adroddiad, yn seiliedig ar gyfweiliadau â staff ysgolion a chydlynwyr gweithredu, fod diwylliant ysgol a oedd yn blaenoriaethu llesiant yn hanfodol i gynllunio a gweithredu effeithiol. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y ffaith ei bod yn bwysig i staff ysgolion, dysgwyr a theuluoedd deimlo ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol. Gellid annog yr ymdeimlad hwn o berthyn drwy sawl gweithred gan gynnwys: sefydlu ymddiriedaeth rhwng yr ysgol a theuluoedd, a rhwng staff ysgolion a dysgwyr, yn ogystal ag ymgysylltu â staff ysgolion o bob lefel a rhoi perchnogaeth ac ymreolaeth iddynt gynllunio a rhoi camau gweithredu ar waith. Roedd llwyddiant ysgol wrth gynllunio a rhoi camau gweithredu ar waith hefyd wedi'i alluogi gan bresenoldeb strwythurau cymorth cyson ac integredig. Mae ysgolion yn elwa pan fydd partneriaeth agos rhwng cydlynwyr gweithredu a thimau Ysgolion sy'n hybu Iechyd a Llesiant, ymgysylltiad effeithiol gan gyrff rhanbarthol a llywodraethu lleol, partneriaeth gref i rannu ymarfer ac adnoddau, a negeseuon clir ynghylch sut mae polisiau a mentrau cenedlaethol yn ategu ei gilydd.

Er mwyn archwilio'r cynnydd a wnaeth ysgolion wrth gyflawni'r Fframwaith, cynhaliodd swyddogion yn Llywodraeth Cymru arolwg yn haf 2023 a oedd ar agor i arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr mewn ysgolion a gynhelir. Yn ogystal â mapio cynnydd ysgolion i gyflawni'r Fframwaith, nod yr arolwg oedd archwilio faint o gymorth y mae ysgolion wedi'i dderbyn a'u defnydd o adnoddau perthnasol. [Cyhoeddwyd bwletin ymchwili ym mis Tachwedd 2023 yn](#)

[amlinellu prif ganfyddiadau'r arolwg hwn](#). Ar ben hynny, [cyhoeddwyd ail fwletin ymchwil ym mis Hydref 2024 yn crynhoi canfyddiadau pellach o'r arolwg hwn](#). Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o'r Fframwaith ac yn defnyddio'r offeryn hunanasesu dull ysgol gyfan a ddatblygwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, yn enwedig ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, ni adroddwyd yn gyson am gyfathrebu mynych rhwng ysgolion a chydlynwyr gweithredu neu dimau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant Lleol i gefnogi'r ddarpariaeth, er bod ysgolion uwchradd wedi nodi mwy o gyfathrebu. Mynegodd ymatebwyr o ysgolion a oedd wedi cyfathrebu â chydlynwyr gweithredu neu dimau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant Lleol lefel uchel o foddhad ag ansawdd y cymorth a ddarparwyd.

Ym mis Hydref 2024, [comisiynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insight i gynnal ymchwil](#) i nodi ymarfer effeithiol sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni'r Fframwaith a'r cymorth a all eu helpu i oresgyn rhwystrau i gyflawni hyn. Y bwriad yw y bydd canfyddiadau'r ymchwil hon (sydd ar fynd ar adeg ysgrifennu) yn darparu camau clir a gweithredadwy y gallai ysgolion eu cymryd i gefnogi eu hymdrechion i gyflawni'r Fframwaith, gydag enghreifftiau astudiaethau achos o ymarfer effeithiol o amrywiaeth o ysgolion. Bwriad yr ymchwil hefyd yw llywio sut y gall Llywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill gefnogi ysgolion, gan gynnwys y rhai sydd â llai o ymgysylltiad neu gynydd i oresgyn rhwystrau i ddarpariaeth.

Yn ogystal, ffurfiwyd gweithgor ymchwil dull ysgol gyfan yn 2024 rhwng ymchwilwyr a oedd yn cynnal y prosiectau uchod. Daw aelodau'r grŵp o Lywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru, y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion a Phrifysgol Caerdydd. Mae ei gyfarfodydd yn darparu fforwm i drafod gweithgareddau ymchwil a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar y Fframwaith. Mae'r grŵp wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad hwn.

Cytunodd y Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol y Gweinidogion (y grŵp sydd â chyfrifoldeb am yrru'r Fframwaith yn ei flaen) ddechrau 2025 y byddai'r gweithgor ymchwil dull ysgol gyfan yn cael ei ffurfioli yn ei strwythur llywodraethu fel ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar ymchwil a thystiolaeth. Bydd ei aelodaeth hefyd yn cael ei hehangu i gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid i gyfrannu at gynllunio tystiolaeth.

1.2 Nodau'r adroddiad

Nod yr adroddiad hwn yw nodi anghenion tystiolaeth heb eu diwallu ar gyfer monitro a gwerthuso darpariaeth ac effaith y Fframwaith yn effeithiol ac amlygu prif ffynonellau data a chyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain. Bwriedir iddo arwain ymchwilwyr, llunwyr polisi, a rhanddeiliaid eraill wrth gynllunio gweithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith a phynciau cysylltiedig, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i fynd i'r afael â'r bylchau tystiolaeth hyn lle bo'n bosibl.

Mae risgiau, os na chaiff yr anghenion tystiolaeth heb eu diwallu hyn eu datrys, y bydd potensial y Fframwaith yn gyfyngedig a cholli'r cyfleoedd hollbwysig i gefnogi lleoliadau'n effeithiol. Mae buddsoddi mewn tystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith yn hanfodol i sicrhau bod ei ddarpariaeth yn effeithiol ac yn cael dylanwad drwy:

- dynnu sylw at ble y gallai lleoliadau fod angen cymorth i ddehongli a defnyddio'r Fframwaith yn effeithiol er mwyn llywio datblygiad adnoddau defnyddiol a hygyrch sy'n cefnogi'r ddarpariaeth
- nodi heriau penodol y mae staff ysgolion yn eu hwynebu i lywio cymorth targededig sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn
- llywio blaenoriaethau ar gyfer cyfeirio adnoddau a chymorth i ysgolion lle mae eu hangen fwyaf i wneud y mwyaf o werth a manteision
- deall ble a sut mae'r Fframwaith yn gweithio'n dda a pham, a sut y gellir ei wella

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, fe wnaethon ni ddefnyddio model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd fel fframwaith cyfeirio. Y model hwn yw'r fframwaith mwyaf cynhwysfawr a chyfoes sydd ar gael, gan amlinellu prif gydrannau, prosesau a chanlyniadau dull ysgol gyfan. Archwiliwyd pob cydran o'r model gennym i ddeall ei rôl wrth gyflawni'r dull a'i effaith. Yna, fe wnaethom fapio'r cydrannau hyn i brosiectau ymchwil presennol gan ddefnyddio dogfennaeth sydd ar gael ar eu methodoleg a'u canfyddiadau, yn ogystal â mewnwleidiadau gan ymchwilyr sy'n ymwneud â'r prosiectau hyn, i nodi unrhyw anghenion tystiolaethol heb eu diwallu sydd angen sylw pellach. Nodwn fod model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd wedi'i fwriadu fel damcaniaeth raglen sy'n dod i'r amlwg a fyddai'n cael ei diwygio wrth i dystiolaeth werthuso ddod i'r amlwg, ac felly gall yr anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd yn yr adroddiad hwn newid hefyd.

Mae'r ymarfer ymchwil a'r adroddiad hwn wedi cael eu harwain a'u datblygu gan ymchwilyr o Lywodraeth Cymru gyda chydweithrediad a chymorth gan aelodau o'r gweithgor ymchwil dull ysgol gyfan (gweler adran 1.1).

2. Anghenion tystiolaethol heb eu diwallu

Mae'r adran hon yn crynhoi'r meysydd o anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd o'r ymarfer mapio ymchwil, a phe baent yn cael sylw byddent yn rhoi mewnwleidiad i sut mae'r Fframwaith yn cael ei weithredu a'i effaith. Mae manylion yr ymarfer mapio llawn wedi'u manylu yn Atodiad 1. Mae Adran 3 yn amlinellu'r prif ffynonellau data a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu hyn.

Nodwyd y prif anghenion tystiolaethol heb eu diwallu ar gyfer y dull ysgol gyfan fel a ganlyn:

- cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu â chymuned yr ysgol gyfan
- llesiant staff ysgolion
- anghenion hyfforddiant a chymorth staff ysgolion
- diwylliant ac amgylchedd ysgolion
- blaenoriaethu'r ysgol ac adnoddau i gefnogi cyflawni
- partneriaethau ysgolion â gwasanaethau cymorth

- alinio'r gwaith o gyflawni â strategaethau addysg ac iechyd
- cyflawni ar draws pob lleoliad addysg

2.1 Cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu â chymuned yr ysgol gyfan

Mae'r Fframwaith yn pwysleisio pwysigrwydd ymdrech gydweithredol a chynaliadwy sy'n cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol (e.e., dysgwyr, staff, llywodraethwyr, rhieni / gofalwyr [y cyfeirir atynt fel 'rhieni' o hyn ymlaen er hwylustod] a phartneriaid) wrth gyflawni dull ysgol gyfan. Caiff hyn ei feithrin drwy ymgysylltu a deialog barhaus â chymuned gyfan yr ysgol, gan eu helpu i gydnabod manteision gweithgareddau iechyd a llesiant yr ysgol a meithrin diwylliant a rennir sy'n gwerthfawrogi iechyd a llesiant.

Yn benodol, mae ymarferwyr yn chwarae rhan sylfaenol wrth ymgorffori a chynnal dull ysgol gyfan, gan eu bod yn uniongyrchol gyfrifol am greu amgylchedd cefnogol, gweithredu mentrau llesiant, ac ymateb i anghenion dysgwyr. Er bod y SHRN yn darparu mewnwelediadau blynyddol o safbwynt uwch arweinwyr ysgolion (trwy'r Holiadur Amgylchedd Ysgol) a chan ddysgwyr, ac mae rhai ymarferion ymchwil a gwerthuso untro wedi archwilio profiadau grwpiau ymarferwyr eraill a'r gymuned ysgol ehangach (e.e., gwerthusiad y Ganolfan Wolfson o'r Fframwaith), mae'r ffynonellau tystiolaeth hyn naill ai'n gyfyngedig o ran eu cwrmpas neu eu hamlder. Nid oes ymchwil reolaidd i staff yn ehangach. Mae casglu data rheolaidd gan sampl gynrychioliadol o staff ysgolion, a ddewisir, yn ôl pob tebyg, drwy samplu tebygolrwydd, yn bwysig i asesu ymgorffori'r Fframwaith a'i effaith hirdymor. Dylai'r sampl fod yn ddibynadwy o leiaf ar lefel y bwrdd iechyd lleol i helpu i ddeall y ddarpariaeth a llywio'r gweithrediad, o ystyried bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydlynu cymorth y Fframwaith drwy'r cydlynwyr gweithredu ar y lefel hon.

Bydd yn bwysig casglu gwybodaeth gan staff ysgolion am eu lefel o ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth o'r Fframwaith, yn ogystal â'r rôl y maent yn ei chwarae wrth gyflawni'r Fframwaith. Mae tystiolaeth ddiweddar o werthusiad Wolfson wedi dangos bod ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth o'r Fframwaith yn amrywio'n fawr ymhlith staff, gyda fawr ddim rhaeadru gwybodaeth yn gyson y tu hwnt i uwch arweinyddiaeth yr ysgol ([Brown, et al., 2025](#)). Mae hyn yn awgrymu, er y gall uwch arweinwyr fod yn gyfarwydd â'r Fframwaith, fod diffyg lledaenu gwybodaeth yn systematig ymhlith gweithlu ehangach yr ysgol. Gall staff ysgolion roi mewnwelediad gwerthfawr i sut mae'r Fframwaith yn cael ei ymgorffori yn ymarfer dyddiol yr ysgol a helpu i nodi rhwystrau i weithredu lle gall cymorth neu addasiadau pellach targedig wella'r ddarpariaeth.

Mae mewnwelediadau gan aelodau eraill o gymuned yr ysgol—megis rhieni, gweithwyr proffesiynol allanol sy'n gweithio yn yr ysgol neu gyda'r ysgol, cyrff llywodraethu, a phartneriaid—wedi bod yn fwy cyfyngedig. Byddai ehangu casglu data i gynnwys ystod ehangach o safbwyntiau yn darparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o sut mae'r Fframwaith yn cael ei weithredu a'i effaith o fewn cymuned yr ysgol. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am y graddau y mae'r grwpiau hyn yn cymryd rhan weithredol mewn nodi blaenoriaethau iechyd a llesiant ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gyda sylw arbennig i a yw ysgolion yn sicrhau bod gan bawb gyfle teg i

gyfrannu. Yn ogystal, byddai'n bwysig cael mewnwelediad i sut mae ysgolion yn partneru ac yn cydweithio â'r gymuned leol i alluogi datblygiad a chynaliadwyedd eu dull ysgol gyfan.

Er mwyn cefnogi ymgysylltiad pob ysgol â chymuned gyfan yr ysgol, mae angen cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol effeithiol o fewn ac o'r lleoliad i sicrhau bod pob aelod yn deall ac yn cysylltu â'i ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant. Mae tystiolaeth bod angen ffynhonnell ddata reolaidd ynghylch sut mae ysgolion yn cyfleu eu blaenoriaethau, eu gweledigaeth, eu cynlluniau a'u polisïau iechyd a llesiant gyda phob grŵp o fewn cymuned yr ysgol gyfan a sut maen nhw'n cyflawni hyn mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys archwilio a yw dulliau cyfathrebu wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd, pa mor gyson y mae negeseuon yn cael eu cyfleu ar draws gwahanol sianeli, ac i ba raddau y mae cyfathrebu'n meithrin ymdeimlad o berthyn, effeithiolrwydd a llais. Yn ogystal, byddai deall sut mae ysgolion yn hyrwyddo cyfathrebu agored, dwyffordd, lle mae dysgwyr, staff, teuluoedd a phartneriaid allanol yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau, yn rhoi mewnwelediadau i effeithiolrwydd strategaethau cyfathrebu cyfredol a lle y gallai fod angen rhagor o gymorth i gryfhau ymgysylltiad. Er y gall uwch arweinwyr ysgolion gynnig safbwyntiau gwerthfawr ar gyfathrebu'r ysgol ynghylch ei dull iechyd a llesiant, byddai casglu mewnwelediadau gan aelodau eraill o gymuned yr ysgol yn rhoi darlun mwy cyflawn o ba mor effeithiol y mae'r negeseuon hyn yn cael eu cyfleu a'u deall.

2.2 Llesiant staff ysgolion

Mae llesiant staff ysgolion yn elfen hanfodol o'r Fframwaith, gan effeithio'n uniongyrchol ar les dysgwyr a chanlyniadau addysgol ([Braun, Schonert-Reichl, a Roeser, 2020](#); [Dreer, 2023](#)). Mae staff sydd wedi'u cefnogi ac sy'n frwdfrydig yn creu amgylcheddau dysgu cadarnhaol ac yn meithrin perthnasoedd cryf gyda dysgwyr ([Abós, Haerens, Sevil, Aelterman, a García-González, 2018](#)). Fodd bynnag, mae galw cynyddol, yn enwedig ar ôl y pandemig, wedi cyfyngu ar amser i staff flaenoriaethu eu llesiant eu hunain ([Brown, et al., 2025](#)). Mae diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn amddiffyn llesiant staff yn bwysig i gynnal amgylchedd ysgol iach a chefnogol i bawb.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae diffyg data cynrychioliadol rheolaidd a gesglir gan staff ysgolion, sy'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am lesiant emosiynol a meddyliol staff. Mae casglu'r data hwn yn uniongyrchol gan staff ysgolion yn bwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth gywir a dibynadwy o'u llesiant emosiynol a meddyliol. Felly, mae angen tystiolaeth i gasglu data parhaus gan staff ysgolion am eu llesiant. Byddai hyn hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am ba mor gefnogol yw amgylchedd eu hysgol (e.e., diwylliant yr ysgol, perthnasoedd) i gefnogi llesiant staff, yn ogystal ag argaeledd a'u defnydd eu hunain o gymorth llesiant.

2.3 Anghenion hyfforddiant a chymorth staff ysgolion

Er mwyn i staff ymgorffori'r Fframwaith yn effeithiol, mae angen iddynt deimlo'n hyderus ac wedi'u paratoi'n dda i atal ac ymateb i anghenion llesiant dysgwyr ([Lendrum, Humphrey, a Wigelsworth, 2013](#); [Fallon, Cathcart, DeFouw, O'Keeffe, a Sugai, 2018](#)). Mae dysgu proffesiynol yn galluogi staff i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen i feithrin amgylchedd ysgol cadarnhaol a chefnogol. Mae gwybodaeth ansoddol yn

cael ei chasglu fel rhan o werthusiad y Ganolfan Wolfson ynghylch hyder a gallu staff ysgolion i gefnogi anghenion llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr. Nodwyd bod disgwyliadau cynyddol i staff ysgolion gefnogi llesiant dysgwyr ochr yn ochr â'u rolau addysgu ([Long, Hawkins, Murphy, a Moore, 2023](#)) yn peri risg i staff deimlo nad oes ganddynt y sgiliau neu'r hyfforddiant perthnasol, yn enwedig wrth reoli heriau iechyd meddwl cymhleth ([Brown, et al., 2025](#)). Adroddodd staff fod yr heriau hyn wedi gwaethygu oherwydd anghenion iechyd meddwl cynyddol ymhlith plant a phobl ifanc a waethygyd ymhellach gan y pandemig a phroblemau capasiti hirhoedlog yn CAMHS.

Er mwyn asesu gallu staff ysgolion yn effeithiol i gyflawni'r Fframwaith a llywio'r broses o gyflawni cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol i ymdopi â'r heriau sy'n esblygu o gefnogi llesiant dysgwyr, mae'n bwysig casglu data rheolaidd gan staff ysgolion am eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hagweddau i gefnogi cyflawniad y Fframwaith. Gallai hyn gynnwys casglu gwybodaeth am:

- ba mor barod a hyderus y mae staff ysgolion yn teimlo i gefnogi anghenion llesiant emosiynol a meddyliol y dysgwr, gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol i'w ddisgwyl yn seiliedig ar ofynion y Fframwaith. Gall hyn hefyd gynnwys a yw staff yn deall trawma, ei effaith bosibl, ac egwyddorion creu amgylchedd diogel a chefnogol lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn seicolegol. Yn gysylltiedig â hyn, byddai'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth am allu a hyder staff ysgolion i gyflawni Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant fel proses allweddol ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith.
- y graddau y mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu hysgol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau am lesiant emosiynol a meddyliol, gan gynnwys y mathau a nifer y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt
- yr anghenion hyfforddi a nodwyd gan staff ysgolion ynghylch llesiant emosiynol a meddyliol, a sut mae'r dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn ogystal â'r blaenoriaethau llesiant a nodwyd drwy'r hunanasesiad dull ysgol gyfan a blaenoriaethau gwella'r ysgol
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o lwybrau atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r prosesau hyn

2.4 Diwylliant ac amgylchedd ysgolion

Mae'r Fframwaith yn pwysleisio pwysigrwydd diwylliant ac amgylchedd ysgol cadarnhaol sy'n seiliedig ar werthoedd craidd perthyn, effeithiolrwydd a llais. Yn ôl y safonau cenedlaethol arfaethedig ar gyfer rhaglen Ysgolion sy'n hybu Iechyd a Llesiant, mae diwylliant ac amgylchedd yr ysgol yn cynnwys: cyfleusterau ffisegol a rhithwir; diwylliant, hinsawdd a pherthnasoedd; a pholisïau ac arferion sydd ar waith.

Fel rhan o werthusiad proses Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwerthusiad y Ganolfan Wolfson, mae ystod o wybodaeth hefyd wedi'i chasglu o fewn ysgolion sy'n edrych ar ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol mewn ymateb i gyflwyno'r Fframwaith. Er enghraifft, fel y nodwyd yn

flaenorol (gweler paragraff **Error! Reference source not found.**), nododd gwerthusiad proses Iechyd Cyhoeddus Cymru fod diwylliant ac amgylchedd ysgol sy'n blaenoriaethu llesiant yn hanfodol i feithrin ymdeimlad o berthyn i'r ysgol, sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r Fframwaith yn effeithiol. Yn ogystal, nododd gwerthusiad y Ganolfan Wolfson heriau o ran digonolrwydd mannau ffisegol mewn ysgolion i ddiwallu'r galw i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr ([Brown, et al., 2025](#)).

Ar ben hynny, mae llawer o agweddau ar ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol eisoes yn cael eu casglu'n rheolaidd gan ddysgwyr trwy arolwg SHRN. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am berthnasoedd y dysgwyr â'u cyfoedion a staff ysgolion (a'u teuluoedd), cyfleoedd iddynt leisio'u barn, y graddau y maent yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol, y graddau y maent yn hoffi'r ysgol, a'r graddau y mae athrawon yn cymryd camau yn erbyn aflonyddu rhywiol. Canfu tystiolaeth ddiweddar gan ddefnyddio'r mesurau hyn o'r SHRN fod canfyddiadau dysgwyr o hinsawdd yr ysgol - a ddiffinnir fel 'y canfyddiadau sydd gan blant am y berthnasoedd, diogelwch, gwerthoedd a chredoau yn eu hysgol' - o fewn yr ysgol a'r grŵp blwyddyn yn rhagweld canlyniadau iechyd meddwl mewn plant oedran cynradd ([Donaldson, Morgan, Ouerghi, Lewis, a Moore, 2025](#)), gan dynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant ac amgylchedd yr ysgol. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol hefyd yn cael ei chasglu gan uwch arweinwyr ysgolion drwy arolwg SHRN, megis blaenoriaethau a pholisïau'r ysgol ynghylch llesiant dysgwyr a staff, a sut mae mewnbyn dysgwyr a rhieni ynghylch gwelliannau iechyd a llesiant mewn ysgolion yn cael ei geisio a'i ddefnyddio.

Mae rhagor o wybodaeth y gellid ei chasglu'n rheolaidd gan ddysgwyr, yn ogystal â grwpiau eraill o fewn cymuned yr ysgol gyfan, er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol. I ddysgwyr, mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth am: eu profiadau o fannau ffisegol a gynlluniwyd i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol, a'u hygyrchedd iddynt; i ba raddau a sut mae staff ysgolion yn cymryd camau gweithredu pan fydd dysgwyr yn profi gwahaniaethu a/neu fwlio (y tu hwnt i aflonyddu rhywiol sydd eisoes yn cael ei ofyn gan ddysgwyr fel rhan o SHRN); sut mae'r ysgolion yn annog ymddygiad ceisio cymorth; hygyrchedd gwasanaethau cymorth; ac a ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt wrth estyn allan am gymorth.

Unwaith eto, gellid casglu gwybodaeth gan staff ysgolion i gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys sut mae ysgolion yn meithrin ymdeimlad o berthyn, yn ogystal â safbwyntiau staff ysgolion ar eu perthnasoedd o fewn yr ysgol, gyda rhieni, a sut mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol a chyda'r gymuned ehangach. Byddai mewnwelediadau pellach gan grwpiau eraill o fewn cymuned yr ysgol gyfan (e.e., rhieni) yn helpu i ddarparu golwg gyfannol ar ddiwylliant ac amgylchedd yr ysgol a'i heffaith.

2.5 Blaenoriaethu ysgolion ac adnoddau i gefnogi cyflawni

Mae'n debygol y bydd angen blaenoriaethu ac adnoddau digonol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant er mwyn bod yn effeithiol ([Brown, et al., 2025](#)). Mae'r safonau cenedlaethol arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu Iechyd a Llesiant yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth gref, gan sicrhau bod iechyd a llesiant yn parhau i fod

yn flaenoriaeth uchel, wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau datblygu ysgolion, a'u cefnogi gan adnoddau a llywodraethu priodol i oruchwyllo ac adolygu gweithgarwch i gyflawni gwelliant cynaliadwy.

Mae gwerthusiad y Ganolfan Wolfson wedi casglu ystod o wybodaeth am sut mae'r Fframwaith wedi effeithio ar bolisiau iechyd meddwl ysgolion fel dangosydd o'u blaenoriaethau. Yn ogystal, cesglir gwybodaeth yn rheolaidd drwy holiadur uwch arweinwyr ysgolion (Holiadur Amgylchedd Ysgol) fel rhan o SHRN am flaenoriaethau'r ysgol, gan gynnwys llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff, y staff sy'n arwain dulliau iechyd a llesiant, a yw cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i ymgorffori yng nghynllun datblygu'r ysgol. Roedd adran atodol hefyd a gyflwynwyd i'r arolwg hwn yn 2023/24 ar gyfer ysgolion uwchradd ac yn 2024/25 ar gyfer ysgolion cynradd a ofynnodd pwy yn yr ysgol oedd yn rhan o'u gwaith dull ysgol gyfan a phwy sy'n arwain ar weithredu eu dull. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adran atodol hon yn cael ei chadw ar gyfer camau yn y dyfodol. Mae gwybodaeth wedi'i chasglu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n amlinellu cam cynnydd pob ysgol o ran cyflawni'r Fframwaith, sy'n cynnwys gwybodaeth am natur y camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'u hunanwerthusiad.

Er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae ysgolion yn blaenoriaethu ac yn darparu adnoddau ar gyfer eu dull ysgol gyfan, gellid casglu gwybodaeth ychwanegol gan uwch arweinwyr ysgolion ynghylch:

- yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo i gyflawni'r Fframwaith, gan gynnwys pa aelodau staff sy'n cymryd rhan, eu cyfrifoldebau, a faint o amser gwarchodedig a neilltuwyd iddynt i gefnogi'r gwaith o gyflawni (e.e., defnyddio diwrnodau HMS)
- sut mae ysgolion yn dyrannu adnoddau tuag at wahanol gydrannau o'u dull ysgol gyfan a sut mae'r anghenion hyn wedi'u nodi
- sut mae ysgolion yn ceisio goresgyn heriau o ran adnoddau, megis drwy gydweithio ag ysgolion clwstwr (grwpiau o ysgolion sy'n cydweithio, fel arfer yn seiliedig ar agosrwydd daearyddol, trefniadau bwydo ysgolion uwchradd, neu flaenoriaethau addysgol a rennir) neu fanteisio ar bartneriaethau â sefydliadau allanol (e.e., elusennau lleol neu sefydliadau'r trydydd sector, rhannu adnoddau ar draws ysgolion clwstwr)
- y prosesau llywodraethu sydd ar waith i oruchwyllo ac adolygu gweithgaredd

2.6 Partneriaethau ysgol gyda gwasanaethau cymorth

Mae ymchwil hyd yma yn tynnu sylw at y ffaith bod ysgolion yn chwarae rhan hanfodol fel hybiau ar gyfer cefnogi iechyd meddwl dysgwyr drwy nodi anghenion a phontio bylchau i wasanaethau cymorth i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ([Sefydliad Iechyd y Byd, 2021](#)). Pan fydd angen cymorth iechyd meddwl ychwanegol ar ddysgwyr, gall ysgolion eu cyfeirio at ystod o wybodaeth, gwasanaethau ac ymyriadau arbenigol a'u darparu, naill ai drwy addasu eu darpariaeth eu hunain neu drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol. Mae'n bwysig casglu gwybodaeth am gyfathrebu a phartneriaethau ysgolion â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ac

ymyrraeth arbenigol er mwyn deall pa mor effeithiol y mae ysgolion yn ymateb i anghenion dysgwyr.

Cesglir data drwy Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN gan uwch arweinwyr ysgolion ynghylch argaeledd gwasanaethau cwnsela ysgolion a lleol i ddysgwyr, seicolegwyr addysgol i gefnogi anghenion dysgwyr, yn ogystal â lefel y cymorth a ddarperir gan CAMHS lleol i'r ysgol a nifer yr atgyfeiriadau dysgwyr atynt.

Er mwyn deall yn well sut mae ysgolion yn gweithio gyda phartneriaid allanol i gefnogi iechyd meddwl dysgwyr, gellid mynd i'r afael â sawl bwlch yn y dystiolaeth. Gellid casglu gwybodaeth ynghylch a oes gan ysgolion gyfathrebu a phartneriaethau effeithiol a rheolaidd â darparwyr gwasanaethau iechyd a llesiant i ddeall a diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys sut mae ysgolion yn hwyluso mynediad at ymyrraeth arbenigol i ddysgwyr. Byddai hefyd yn ddefnyddiol casglu gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn cefnogi cyflawni darpariaeth iechyd a llesiant cyffredinol a thargededig o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a sut mae'r ysgol yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflawni'r rhain.

2.7 Alinio'r gwaith o gyflawni â strategaethau addysg ac iechyd

Mae gorgyffwrdd rhwng cyflawni'r Fframwaith a strategaethau a pholisïau allweddol addysg ac iechyd, ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod: <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cynlluniau-ysgolion-iach-rhwydwaith-cymru/>

- mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliad y bydd ysgolion yn integreiddio eu cwricwlwm â'u dull ysgol gyfan, gan sicrhau aliniad effeithiol rhwng y ddau. Yn yr un modd, mae'r [Cwricwlwm i Gymru yn tynnu sylw at y ffaith y dylai'r Fframwaith ategu Maes Dysgu a Phrofiad iechyd a llesiant](#) a'i atgyfnerthu gan bolisïau ac arferion ysgolion.
- mae'r Safonau Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer Ysgolion sy'n hybu iechyd a llesiant wedi'u cynllunio i alinio â'r Fframwaith drwy ddarparu fframwaith strwythuredig sy'n helpu ysgolion i ymgorffori llesiant yn eu harferion bob dydd. Bydd yr un camau i ddatblygu a chyflawni'r Fframwaith hefyd yn cefnogi ysgolion i gyflawni'r safonau arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu iechyd a llesiant.
- [mae'r canllawiau ar Ysgolion Bro yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio ac ymgysylltu â theuluoedd, gwasanaethau allanol, a'r gymuned ehangach](#) yn yr un modd â'r Fframwaith.
- [mae'r Canllawiau Gwella Ysgolion yn darparu fframwaith ar gyfer hunanwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#) sy'n cael ei ategu gan y Fframwaith ac yn cynnwys disgwyliad y bydd ysgolion yn hunanwerthuso eu dull o ymdrin â llesiant, cydraddoldeb a chynhwysiant.
- [mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi anghenion llesiant emosiynol a meddyliol pob dysgwr, ochr yn ochr ag adnabod](#)

[yn gynnar ac ymateb amlasiantaeth cyfannol a chydlynol i sicrhau cymorth amserol i'r rhai ag anghenion ychwanegol](#) sy'n alinio â'r Fframwaith.

Gall ymgorffori'r Fframwaith helpu ysgolion i gyflawni ystod o strategaethau ieuchyd ac addysg cenedlaethol. Er mwyn sicrhau cydlyniant a chysondeb wrth gyflawni, mae'n bwysig deall sut mae ysgolion yn alinio eu dull ysgol gyfan â'r polisïau a'r fframweithiau hyn wrth i'r broses ymgorffori fynd yn ei blaen. Mae tystiolaeth ansoddol o werthusiad y Ganolfan Wolfson yn awgrymu bod staff ysgolion yn gweld y strategaethau cenedlaethol hyn fel rhai sy'n cystadlu am eu hamser yn hytrach na bod yn gyflenwol ([Brown, et al., 2025](#)). Byddai casglu data'n rheolaidd ar sut mae ysgolion yn alinio eu dull ysgol gyfan â strategaethau cenedlaethol eraill yn galluogi monitro parhaus o heriau, llwyddiannau a chyfleoedd ar gyfer integreiddio pellach. Byddai uwch arweinwyr ysgolion a staff sy'n arwain ymdrechion pob ysgol mewn sefyllfa dda i ddarparu'r wybodaeth hon.

2.8 Cyflawni ar draws pob lleoliad addysg

Mae'r Fframwaith yn ganllawiau statudol i gyrff llywodraethu ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir, yn ogystal ag Unedau Cyfeirio Disgyblion. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol ystyried y Fframwaith hwn, gan gynnwys wrth drefnu neu gyflawni'r holl ddarpariaeth 'addysg heblaw yn yr ysgol' (EOTAS).

Hyd yn hyn mae ymchwil wedi canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion cynradd, canol (pob oed) ac uwchradd a gynhelir. Wrth i'r Fframwaith gael ei ymgorffori'n ehangach ledled Cymru, mae cyfleoedd i archwilio ei ddarpariaeth a'i effaith ar draws pob math o leoliadau addysgol. Er enghraifft, mae cydlynwyr gweithredu yn casglu data ar gyfran y lleoliadau ym mhob cam o weithredu'r Fframwaith, sy'n cynnwys data ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig. Mae data ar gael hefyd gan y SHRN a weinyddir i ddysgwyr ôl-16 mewn lleoliadau addysg bellach a allai ddarparu cyfleoedd i archwilio effaith y Fframwaith. Cafwyd 11,087 o ymatebion gan ddysgwyr ôl-16 o 122 o ysgolion yn 2023, er bod maint y sampl yn llai nag a gasglwyd gan ddysgwyr oedran uwchradd (102,990 yn 2023/24) a chynradd (32,606 yn 2022/23). Yn ogystal, mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal ymchwil i ddatblygu fersiwn o Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr SHRN i'w gweinyddu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr am gyflwyniad ac effaith y Fframwaith mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

3. Prif ffynonellau data a chyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion tystiolaethol heb eu diwallu

Ar gyfer yr anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd, mae'n ymddangos y bydd angen amrywiaeth o ffynonellau data i lunio darlun cyfansawdd. Mae prif ffynonellau data a chyfleoedd y gellid eu hystyried i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu hyn wedi'u nodi, sef:

- Mireinio arolygon yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
- Casglu gwybodaeth gan ystod ehangach o aelodau cymuned yr ysgol
 - Arolygon ar gyfer staff ysgolion

- Arolygon i rieni
- Casglu gwybodaeth gan ymarferwyr sy'n cefnogi ysgolion
- Defnyddio data ar lefel genedlaethol
- Defnyddio ffynonellau data lleol
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd cysylltu data

3.1 Mireinio arolygon yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae llawer o'r anghenion tystiolaethol a nodwyd yn ymwneud â diffyg gwybodaeth reolaidd a chynrychioliadol a gesglir gan aelodau o gymuned yr ysgol a fyddai'n cefnogi monitro a gwerthuso'r Fframwaith. Mae SHRN yn cynnig cyfle gwych i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd ar gyfer dysgwyr ac uwch arweinwyr ysgolion er mwyn cefnogi monitro a gwerthuso hirdymor gwell.

Mae Bwrdd y Rhaglen Ysgolion sy'n hybu Iechyd (gweler Adran 1 am ragor o wybodaeth am y bwrdd hwn) yn arwain gwaith i alinio mesurau ar gyfer arolygon dysgwyr ac uwch arweinwyr ysgolion (SEQ) o fewn y SHRN â'r safonau arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu Iechyd a Llesiant, sy'n gorgyffwrdd yn agos â chydannau dull ysgol gyfan. Mae hwn yn gam pwysig a fydd yn debygol o fynd i'r afael â llawer o'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd yn yr adroddiad hwn; gobeithir y gall yr adroddiad hwn helpu i gefnogi mireinio'r mesurau hyn o fewn y SHRN.

3.2 Casglu gwybodaeth gan ystod ehangach o aelodau cymuned yr ysgol

Mae cyfle i gasglu tystiolaeth gynrychioliadol reolaidd gan fwy o grwpiau o fewn cymuned yr ysgol, gan gynnwys staff yr ysgol a rhieni, ar eu cyfranogiad a pha mor effeithiol y mae eu hysgol yn ymgysylltu â nhw i gyflawni'r Fframwaith.

Efallai y bydd cyfleoedd i ysgolion gasglu'r wybodaeth hon eu hunain fel rhan o'r broses werthuso a gwella wrth ymgorffori'r Fframwaith. Er y dylai casglu data fod yn hyblyg i anghenion o fewn ysgol, byddai safoni mesurau a dulliau casglu ar draws ysgolion yn hwyluso gwerthusiad cenedlaethol.

Byddai arolygon rheolaidd gyda'r grwpiau hyn mewn sefyllfa dda i ddarparu'r mewnwelediadau sydd eu hangen i ddeall y ddarpariaeth o'r Fframwaith dros amser, er bod gweinyddu arolygon ar y raddfa hon yn cyflwyno heriau clir o ran adnoddau a seilwaith. Felly, dylid ystyried sut i ehangu a mireinio gweithgareddau ymchwil presennol i fynd i'r afael â'r angen hwn am dystiolaeth. Cyflwynir rhai enghreifftiau isod ar gyfer staff ysgolion a rhieni fel grwpiau pwysig o fewn cymuned yr ysgol.

3.2.1 Arolygon ar gyfer staff ysgolion

Yn ogystal â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a amlygwyd ar gyfer pob grŵp o fewn cymuned yr ysgol, ni chesglir mewnwelediadau cyfredol a chynrychioliadol gan staff

ysgolion am eu llesiant emosiynol a meddyliol, natur gefnogol amgylchedd yr ysgol, eu hanghenion hyfforddi mewn perthynas â dull ysgol gyfan yr ysgol, a'u gallu i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr. Mae sawl arolwg diweddar gyda staff ysgolion wedi darparu data am eu llesiant emosiynol a meddyliol.

Cynhaliodd Cyngor y Gweithlu Addysg (y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru) arolwg gweithlu addysg cenedlaethol cyntaf Cymru yn 2016, a oedd yn cynnwys cwestiynau ar lesiant staff ysgolion. [Yn 2021, cynhaliodd Cyngor y Gweithlu Addysg, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, undebau llafur, cyflogwyr, a chyrrff addysg allweddol eraill, arolwg cenedlaethol dilynol.](#) Er bod yr arolwg hwn wedi cwmpasu'r boblogaeth a ddymunir a'r pynciau blaenoriaeth, roedd cyfyngiadau o ran trylwyredd y dyluniad a'r gyfradd ymateb. Roedd hyn yn cynnwys sampl anghynrychioliadol ar gyfer y gweithlu, heriau gyda hygyrchedd data, a diffyg pwyntiau amser i ganiatáu dadansoddiad hydredol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn lleihau hyder yn y canlyniadau ac yn gwneud unrhyw gymariaethau dros amser ag arolygon eraill yn amhriodol.

Mae [Education Support yn elusen yn y DU sy'n ymroddedig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant staff ysgol mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.](#) Mae Education Support yn casglu data arolwg bob blwyddyn gan staff ysgolion yn y DU ynglŷn â'u llesiant, effaith eu hamgylchedd sefydliadol a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys staff ysgolion yng Nghymru (derbyniwyd rhwng 119 a 132 o ymatebion bob blwyddyn ers 2019 yng Nghymru). Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg hwn yn isel yng Nghymru (dim ond tua 4-5% o'r sampl gyffredinol yr oedd yn cyfrif amdano), gan gyfyngu ar gyffredinolrwydd y canfyddiadau. Er bod y data wedi'i bwysoli i adlewyrchu nodweddion demograffig y gweithlu addysg ehangach, cynhaliwyd y pwysoliad hwn ar lefel y DU ac efallai nad yw'n cynrychioli gweithlu Cymru yn gywir.

[Cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru arolwg yn 2023 gyda phlant a phobl ifanc, a chlywodd hefyd gan 507 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, fel rhan o ddatblygu'r Uchelgeisiau i Gymru.](#) Roedd yr arolwg hwn gyda gweithwyr proffesiynol yn cynnwys cwestiynau ynghylch i ba raddau yr oedd ysgolion yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant, yn ogystal â chwestiynau am gymorth iechyd meddwl ehangach sydd ar gael i'r plant neu'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, mae gan y canfyddiadau hyn berthnasedd cyfyngedig i staff ysgolion gan nad ydym yn gwybod faint a ymatebodd na beth oedd eu rolau. Er bod 56.6% o weithwyr proffesiynol wedi nodi eu bod yn gweithio ym myd addysg (a 14.2% arall wedi nodi eu bod yn gweithio ar draws sawl sector a allai fod wedi cynnwys addysg), ni ddarparodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wybodaeth ddemograffig ac mae'n bosibl bod y sampl o staff ysgolion yn fach ac yn anghynrychioliadol. Cynhaliwyd yr arolwg hwn hefyd ar un achlysur gan wahardd dadansoddiad hydredol.

Mae canfyddiadau'r arolygon hyn yn rhoi trosolwg o dueddiadau ar gyfer llesiant meddyliol staff ysgolion a natur gefnogol eu lleoliadau addysgol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i ddyluniad yr arolygon hyn sy'n cyfyngu ar ddefnyddioldeb a chyffredinoldeb y canfyddiadau, ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain er mwyn darparu mewnwelediadau mwy cadarn a pherthnasol. Dylai arolygon yn y dyfodol sicrhau samplu cynrychioliadol o'r gweithlu addysg, gyda chyfranogiad digonol gan staff ysgolion ar draws gwahanol rolau. Byddai ailadrodd

arolygon dros amser hefyd yn caniatáu dadansoddiad hydredol i fonitro newidiadau ac asesu effeithiolrwydd systemau cymorth o safbwynt staff ysgolion.

3.2.2 Arolygon i rieni

Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ehangu neu fireinio arolygon cenedlaethol presennol o rieni i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd. [Mae Parentkind yn cynnal arolwg cenedlaethol blynyddol gyda rhieni \(5,490 o rieni ledled y DU ac 862 o Gymru ym mis Mehefin 2023\), ac yn cynhyrchu adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ar gyfer rhieni o Gymru](#). Mae'r arolwg hwn yn gofyn i rieni am amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â llesiant eu plentyn, gan gynnwys eu bodlonrwydd â'r cymorth a dderbynnir ar gyfer materion llesiant, gan gynnwys gorbryder ac iselder, yn ogystal â'u cyfranogiad yn yr ysgol.

Mae gan arolwg Parentkind gryfderau clir gan ei fod yn cael ei gynnal yn flynyddol sy'n galluogi dadansoddiad hydredol, yn amcangyfrif y lwfans gwallau ar gyfer ymatebion, ac yn pwysoli'r data i fod yn gynrychioliadol o rieni 18 oed a'n hŷn yn y DU. Fodd bynnag, mae'r pwysoliad yn cael ei gymhwyso ar lefel y DU, sy'n golygu efallai nad yw sampl Cymru yn cynrychioli amrywiaeth ddemograffig neu ddaearyddol rhieni yng Nghymru yn llawn. Amcangyfrifir y lwfans gwallau ar gyfer y DU hefyd, gan wneud cywirdeb canfyddiadau penodol i Gymru yn ansicr. Mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar hyder yng nghynrychiolaeth data Cymru a dibynadwyedd cymariaethau hydredol dros amser. Byddai cymhwyso pwysoli a lwfans gwallau penodol i Gymru yn gwella defnyddioldeb yr arolwg ar gyfer olrhain profiadau rhieni.

[Roedd yr arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2023 fel rhan o ddatblygu eu Huchelgeisiau i Gymru yn cynnwys ymatebion gan 876 o rieni](#). Roedd yr arolwg hwn gyda rhieni yn cynnwys cwestiynau ynghylch a oedd ysgol eu plentyn yn cefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn gadarnhaol, yn ogystal â'u boddhad â'r cymorth iechyd meddwl ehangach i'w plentyn. Fodd bynnag, roedd y dull o samplu yn golygu nad yw'r sampl yn gynrychioliadol o rieni yng Nghymru (e.e., nododd mwyafrif [91.6%] o'r ymatebwyr eu bod yn fenywod) gan gwestiynu cyffredinolrwydd y canfyddiadau. Fel y fersiwn o'r arolwg a roddir i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant (gweler adran 3.2.1), cynhaliwyd yr arolwg hwn hefyd ar un achlysur gan wahardd dadansoddiad hydredol.

[Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn, yn cwmpasu ystod eang o bynciau, ac yn cynnwys tua 12,000 o bobl ledled Cymru gyfan](#). Mae'r arolwg wedi cynnwys cwestiynau penodol i rieni am addysg eu plentyn yn flaenorol, er nad yw'r cwestiynau hyn yn cael eu gofyn yn gyson bob blwyddyn ac nid ydynt wedi canolbwyntio ar ddull yr ysgol o gefnogi llesiant dysgwyr. Yng ngham diweddaraf yr arolwg yn 2022/23, ymatebodd 1,857 o rieni plant oedran ysgol i'r arolwg, sef y sampl fwyaf o rieni yng Nghymru o'r arolygon a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, er bod y sampl wedi'i bwysoli i adlewyrchu poblogaeth gyffredinol Cymru, mae'r pwysoliad hwn yn cael ei gymhwyso i'r sampl lawn yn hytrach nag ar gyfer is-sampl y rhieni, sy'n golygu nad yw'r canfyddiadau o reidrwydd yn cynrychioli pob rhiant yng Nghymru yn llawn.

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru yn flynyddol, gan gefnogi dadansoddiad hydredol. Fodd bynnag, mae heriau wrth gymharu canfyddiadau am addysg plant bob blwyddyn.

Mae'r cwestiynau ar addysg plant wedi newid yn aml, a gall y maint sampl llai o 2024/25, wedi'i yrru gan gyfraddau ymateb sy'n gostwng a phwysau cost, gyfyngu ar gymhariaeth is-grwpiau demograffig fel rhieni yn y dyfodol. Mae bwlch yn y broses o gasglu data yn 2025/26, oherwydd ailgynllunio'r arolwg, yn ychwanegu cyfyngiad pellach ar gyfer dadansoddiad hydredol. Er gwaethaf yr heriau hyn, os gellir cynnwys cwestiynau ar ddull yr ysgol o gefnogi llesiant plant, gallai arolwg Arolwg Cenedlaethol Cymru ddarparu mewnwelediadau hydredol gwerthfawr i helpu i fynd i'r afael â'r bylchau yn y dystiolaeth a nodwyd ar gyfer rhieni.

Ar hyn o bryd, mae'r arolygon a nodwyd yn rhoi trosolwg o farn rhieni ar addysg eu plant a chymorth ysgolion ar gyfer llesiant meddyliol eu plant. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y sampl a'u dyluniad yn lleihau defnyddioldeb a chyffredinolrwydd y canfyddiadau. Er mwyn mynd i'r afael yn well â'r bylchau yn y dystiolaeth a nodwyd ar gyfer rhieni, byddai angen cynnal arolygon yn y dyfodol yn rheolaidd i gefnogi dadansoddiad hydredol, a chynnwys cwestiynau am gymorth ysgolion ar gyfer llesiant meddyliol plant gan ddefnyddio sampl gynrychioliadol o rieni.

3.3 Casglu gwybodaeth gan ymarferwyr sy'n cefnogi ysgolion

Gall ymarferwyr sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni eu dull llesiant (e.e., cydlynwyr gweithredu dull ysgol gyfan, timau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Lles, timau Mewngymorth CAMHS) roi cipolwg rheolaidd a gwerthfawr ar sut mae ysgolion yn cyflawni eu dull ysgol gyfan.

Ar hyn o bryd mae cydlynwyr gweithredu yn casglu data ar nifer yr ysgolion sydd mewn gwahanol gamau o gyflawni'r Fframwaith, sy'n benodol yn 'cyd-fynd' (lleoliadau sydd wedi derbyn cymorth gan Gydlynwyr Gweithredu a/neu dimau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant i ddechrau hunanwerthuso), yn hunanwerthuso, a chynllunio gweithredu, yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth (e.e., gweithlu, arweinyddiaeth ac ymrwymiad) y mae ysgolion wedi'u nodi o'u proses hunanwerthuso. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion (ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac ysgolion arbennig), yn ogystal ag ar gyfer pob awdurdod lleol a bwrdd ieuchyd. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth o sut mae blaenoriaethau gweithredu a llesiant ysgolion yn amrywio ar draws gwahanol leoliadau ysgol a rhanbarthau, gan helpu i nodi tueddiadau, heriau, a meysydd lle gallai fod angen cymorth ychwanegol.

Gan adeiladu ar hyn, mae cydlynwyr gweithredu mewn sefyllfa dda i gasglu rhagor o wybodaeth am sut mae ysgolion yn symud ymlaen trwy gamau nesaf cynllunio gweithredu, rhoi ar waith, gwerthuso a gwelliant parhaus. Yn ogystal, mae timau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant yn gweithio'n agos gyda chydlynwyr gweithredu i gefnogi ymgorffori'r Fframwaith. Gall y timau hyn helpu i gasglu a darparu mewnwelediadau gwerthfawr i sut mae ysgolion yn ymgorffori'r Fframwaith fel rhan o gyflawni'r safonau arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant.

Gall timau Mewngymorth CAMHS ddarparu gwybodaeth am y mathau a graddfa'r cymorth sy'n cael ei ofyn amdano a'i gyflwyno i ysgolion fel rhan o'u gwasanaeth er mwyn cynnig cipolwg ar anghenion hyfforddiant a chymorth staff ysgolion. Gall timau Mewngymorth CAMHS hefyd gasglu gwybodaeth gan staff ysgolion ynghylch pa mor barod y maent i

gefnogi anghenion emosiynol a meddyliol dysgwyr (o fewn disgwyliadau rhesymol eu rôl) ac i ddefnyddio llwybrau atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i ddysgwyr.

Yn ogystal, gallai timau Mewngymorth CAMHS gefnogi mapio partneriaethau lleol ac asedau cymunedol y mae ysgolion yn ymgysylltu â nhw, yn ogystal â'r gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol y maent yn eu cyrchu, er mwyn darparu tystiolaeth am argaeledd a dosbarthiad darpariaeth iechyd meddwl ac i nodi bylchau ar lefelau cenedlaethol a lleol. Un cyfyngiad ar y data a gesglir gan dimau Mewngymorth CAMHS yw y gall fod mai dim ond y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaeth y maent yn eu cynrychioli, yn hytrach na'r gweithlu ysgol ehangach.

3.4 Defnyddio data ar lefel genedlaethol

Mae cyfleoedd hefyd i fanteisio ar ddata lefel genedlaethol a gesglir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am yr anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd. Gall y data hwn gynnig mewnwelediadau eang ar dueddiadau gan fod y Fframwaith wedi'i wreiddio ar draws ysgolion ond ni fydd yn ddigon manwl i archwilio pynciau'n fanwl. Isod mae rhai enghreifftiau o ddata ar lefel genedlaethol y gellid eu hystyried:

3.4.1 Llesiant staff ysgolion

[Mae data a gasglwyd fel rhan o Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion Llywodraeth Cymru yn cynnwys mesurau ynghylch absenoldebau salwch a diwrnodau gwaith a gollwyd](#) ar lefel yr awdurdod lleol a lefel genedlaethol. Gall y data absenoldeb hwn gynnig arwydd parhaus o iechyd staff ysgolion. Fodd bynnag, mae perthnasedd y data hwn yn gyfyngedig gan nad yw'r rheswm dros absenoldeb yn cael ei gasglu ac felly efallai nad yw'n gysylltiedig â materion llesiant. Yn ogystal, efallai y bydd cyfleoedd i gysylltu data ar lefel unigol o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion â setiau data iechyd) i nodi tueddiadau pellach yng nghanlyniadau iechyd meddwl staff ysgolion. [Mae'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw \(SAIL\) yn darparu adnodd data cyfoethog a dibynadwy yng Nghymru](#) sy'n dal ac yn rheoli symiau enfawr o ddata dienw, ar lefel unigol, o wasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ddiogel. Caiff SAIL ei reoli gan y grŵp Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe ac mae'n darparu amgylchedd diogel lle gall ymchwilwyr gael mynediad at ddata cysylltiedig i astudio iechyd y boblogaeth, tueddiadau cymdeithasol a chanlyniadau gwasanaethau. Gweler adran 3.6 am ragor o wybodaeth am gysylltu data.

3.4.2 Llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr

[Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data crynodedig gan awdurdodau lleol yn flynyddol ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion annibynnol a chymunedol sydd ar gael i blant a phobl ifanc](#). Mae'r data hwn ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Mae data ar y defnydd o wasanaethau cwnsela gan ddysgwyr ar gael ar lefel yr awdurdod lleol ac ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ffigurau megis nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at gwnsela, nifer cyfartalog y sesiynau a dderbyniwyd, a nifer y penodau cwnsela fesul dysgwr. Mae yna hefyd sgoriau canlyniadau o Ganlyniadau Clinigol Person Ifanc mewn Gwerthusiad Arferol ([Twigg, et al.,](#)

[2009](#); YP-CORE) a weinyddir ymhlith plant a phobl ifanc cyn ac ar ôl cwnsela. Yr YP-CORE yw un o'r mesurau canlyniad a ddefnyddir amlaf ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau cwnsela ac mae ganddo nodweddion seicometrig da; mae gan y mesur ddibynadwyedd mewnol ac ail brawf da, ac mae'n sensitif i newid cymedrig grŵp ([Twigg, et al., 2016](#)). Mae'r data cryno a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cipolwg eang ar y defnydd o wasanaethau cwnsela ac felly'n arwydd o dueddiadau yn llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr.

Yn ogystal â data ar ddysgwyr sy'n cael mynediad at gwnsela, mae'r casgliad data hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyfanswm yr atgyfeiriadau at wasanaethau cwnsela a nifer yr wythnosau a dreuliwyd ar y rhestr aros i fynychu eu sesiwn gwnsela gyntaf. Gall y data hwn roi syniad o'r galw heb ei fodloni am gymorth cwnsela gan ddysgwyr. Mae hyn yn bwysig i'w olrhain gan fod dros ddau o bob tri (70%) o uwch arweinwyr ac aelodau staff ysgolion a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y galw yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael (Llywodraeth Cymru, 2024). Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn ysgolion uwchradd lle nododd tua naw o bob deg ymatebydd fod y galw yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae pob bwrdd iechyd lleol yn darparu [data misol crynodedig i Lywodraeth Cymru ynghylch nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol](#), gan gynnwys y nifer a atgyfeiriwyd, a gafodd asesiad, ac a gafodd ymyrraeth bob mis. Mae'r data hwn ar gael ar lefel y bwrdd iechyd ac yn genedlaethol a gall roi mewnwelediadau eang i lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.

3.5 Defnyddio ffynonellau data lleol

Mae ysgolion, awdurdodau lleol, a'r haen ganol - mae'r haen ganol yn cynnwys cyrff gwella ysgolion, Awdurdodau Esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cyngor y Gweithlu Addysg, addysg bellach ac uwch a byrddau arholi - yn debygol o gasglu gwybodaeth fonitro a gweinyddol werthfawr sy'n rhoi mewnwelediadau i weithrediad ac effaith y Fframwaith. Efallai y bydd cyfleoedd i gasglu'r ffynonellau gwybodaeth lleol hyn i gynnig mewnwelediadau i rai o'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd, er y byddai heriau o ran adnoddau a seilwaith i gyflawni hyn. Byddai safoni'r mesurau data lleol hyn yn hwyluso gwerthusiad cenedlaethol.

Mae enghreifftiau o ddata lleol a allai fod ar gael i fesur llesiant dysgwyr a staff, yn ogystal ag anghenion hyfforddi staff, yn cynnwys:

- gall ysgolion, awdurdodau lleol, a'r haen ganol gasglu data ar nifer y staff sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth llesiant, gan roi mewnwelediadau i'r galw a bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer llesiant staff ysgolion. Gall ysgolion hefyd gasglu data llesiant yn uniongyrchol gan staff y gellid ei ddefnyddio.
- gall awdurdodau lleol a'r haen ganol ddal data ar hyfforddiant a ddarperir a chymorth pwrpasol y mae ysgolion wedi gofyn amdano i helpu staff i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr. Gall cofnodion ariannu gan ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd roi mewnwelediadau i ddyrannu adnoddau ar gyfer ymyriadau llesiant a hyfforddiant.

- gall ysgolion ac awdurdodau lleol olrhain nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at gymorth iechyd meddwl mewnol neu sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau allanol. Gall y data hwn hefyd helpu i nodi sut mae ysgolion yn ymgysylltu â phartneriaid allanol i gefnogi iechyd meddwl dysgwyr.

3.6 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd cysylltu data

Gallai cysylltu data fod yn offeryn pwerus ar gyfer gwerthuso effaith y Fframwaith. Bydd sicrhau bod unrhyw ddata sydd eisoes wedi'i gasglu, ac y bwriedir ei gasglu, yn cael ei integreiddio i gronfa ddata SAIL yn galluogi asesiad cynhwysfawr o gyflawniad ac effaith y Fframwaith ar ganlyniadau llesiant dysgwyr a staff ysgolion. Mae cysylltu data hefyd yn creu cyfleoedd i gysylltu nifer o ffynonellau data ar draws gwahanol lefelau (e.e., unigol, ysgol, a chenedlaethol) a grwpiau o fewn cymuned yr ysgol (e.e., staff yr ysgol, dysgwyr, a rhieni), gan ganiatáu dealltwriaeth fwy cyfannol o sut mae'r Fframwaith yn gweithredu'n ymarferol.

Mae data ar lefel dysgwyr drwy Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr gan SHRN eisoes ar gael yng nghronfa ddata SAIL. Mae hyn ar gael i 72.4% o ddysgwyr y gofynnwyd iddynt am gysylltu eu data ([Page, et al., 2024](#)). Mae cynlluniau i gynnwys data arolwg uwch arweinwyr ysgolion (Holiadur Amgylchedd Ysgol) o'r SHRN yn SAIL hefyd. Bydd cysylltu'r data hwn â setiau data addysg, fel y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, a setiau data iechyd (e.e., Set Ddata Arolwg Iechyd Cymru, Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi), yn cynnig cyfle pwerus i archwilio canlyniadau uniongyrchol y Fframwaith (e.e., newidiadau yn llesiant dysgwyr, atgyfeiriadau at CAMHS, a phresenoldeb yn yr ysgol) a'r ffactorau sy'n llunio'r canlyniadau hyn (e.e., amgylchedd ysgolion, dulliau arweinyddiaeth, a pholisïau).

Er bod cysylltu data yn offeryn dadansoddol pwerus, mae'n bwysig ystyried unrhyw ffynonellau posibl o ragfarn. Canfuwyd nad oedd gofyn i ddysgwyr oedran uwchradd am eu caniatâd i gysylltu eu data arolwg SHRN yn cael unrhyw effaith ar gyfraddau cwblhau arolygon, ond roedd ffynonellau rhagfarn yng nghyfnodau caniatâd y dysgwr a chysylltu data ([Morgan, et al., 2020](#)). Roedd dysgwyr a oedd yn cydsynio i gysylltu data, a'r rhai a gysylltwyd yn llwyddiannus, yn fwy tebygol o fod yn iau, yn fwy cyfoethog, â llesiant meddyliol cadarnhaol uwch, ac yn nodi llai o ymddygiadau sy'n gysylltiedig â risg o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn cydsynio. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ystyried rhagfarnau posibl mewn data cysylltiedig, gan y gallai rhai grwpiau fod heb gynrychiolaeth ddigonol, gan effeithio ar gyffredinol canfyddiadau.

4. Casgliadau a'r camau nesaf

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi bylchau lle mae angen mwy o dystiolaeth i fonitro a gwerthuso darpariaeth ac effaith y Fframwaith yn effeithiol, yn ogystal â phrif ffynonellau data a chyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain. Tra bod ystod eang o wybodaeth gadarn eisoes wedi'i chasglu fel rhan o weithgareddau ymchwil sy'n monitro a gwerthuso cyflawniad ac effaith y Fframwaith, mae llawer o hyn wedi'i gasglu fel gweithgaredd untro ac ni all ddangos cyfraddau cynnydd. Mae angen gwybodaeth reolaidd ar draws cymuned yr ysgol, yn enwedig gan staff ysgolion a rhieni / gofawyr.

Mae angen rhagor o wybodaeth mewn sawl maes i gefnogi monitro a gwerthuso parhaus y Fframwaith, gan gynnwys ar gyfer y meysydd canlynol:

- cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu â chymuned yr ysgol gyfan
- llesiant staff ysgolion
- anghenion hyfforddiant a chymorth staff ysgolion
- diwylliant ac amgylchedd ysgolion
- blaenoriaethu'r ysgol ac adnoddau i gefnogi cyflawni
- partneriaethau ysgolion â gwasanaethau cymorth
- alinio'r gwaith o gyflawni â strategaethau addysg ac iechyd
- cyflawni ar draws pob lleoliad addysg

Mae mynd i'r afael ag anghenion tystiolaethol heb eu diwallu yn bwysig er mwyn deall i ba raddau, a pha mor effeithiol, y mae'r Fframwaith yn cael ei weithredu a'i effeithiau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi cyflawniad y Fframwaith i fod yn effeithiol ac yn cael dylanwad. Os na chaiff sylw, mae risgiau y bydd potensial y Fframwaith yn gyfyngedig a cholir cyfleoedd hollbwysig i gefnogi ysgolion yn effeithiol.

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau i archwilio a nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol hyn sydd heb eu diwallu, naill ai drwy ymchwil wedi'i gomisiynu neu weithio gyda phartneriaid ymchwil. Gallai'r ffrwd waith ymchwil a gwerthuso, sy'n rhan o strwythur llywodraethu Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol y Gweinidogion, wasanaethu fel fforwm allweddol i gefnogi'r dasg hon.

Tasg bwysig yn y lle cyntaf fydd sicrhau bod yr anghenion tystiolaethol heb eu diwallu hyn yn cael eu cyfleu ar draws cymuned ymchwil addysg Cymru. Gall hyn lywio cynllunio gweithgareddau ymchwil a chynyddu cyfleoedd i integreiddio'r anghenion hyn i waith ymchwil a gwerthuso arall lle bo'n bosibl.

Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at sawl ffynhonnell ddata a chyfleoedd a all helpu i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu hyn. Ffynhonnell ddata bwysig yw'r SHRN lle mae data arolwg cadarn, manwl a hirdymor yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan ddysgwyr ac uwch arweinwyr ysgolion. Mae data'r dysgwyr eisoes yn cael ei integreiddio i gronfa ddata SAIL (gyda chynlluniau ar gyfer data uwch arweinwyr ysgolion), sy'n darparu cyfleoedd gwyb i gysylltu â setiau data addysg ac iechyd eraill i archwilio effaith y Fframwaith a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau hyn dros amser. Mae gwaith parhaus, dan arweiniad Bwrdd y Rhaglen Ysgolion sy'n hybu lechyd, i alinio mesurau'r SHRN â'r safonau arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant, sy'n gorgyffwrdd yn agos â'r Fframwaith. Mae cyfle i'r adroddiad hwn gefnogi a llywio'r broses hon fel y gall mesurau'r SHRN fynd i'r afael â llawer o'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd.

Yn ogystal, amlygwyd pwysigrwydd nodi a sefydlu llwybrau i gasglu data rheolaidd, cynrychioliadol gan ystod ehangach o aelodau o gymuned yr ysgol, yn enwedig i staff ysgolion a rhieni. Dylid ystyried cyfleoedd i adeiladu ar arolygon parhaus neu flaenorol neu eu haddasu i gasglu mewnwelediadau gan grwpiau o fewn cymuned yr ysgol, ac mae'r rhain wedi'u hamlygu i'w harchwilio ymhellach. Gellir dadlau mai casglu gwybodaeth gan staff ysgolion yw'r maes lle mae'r angen tystiolaethol heb ei ddiwallu fwyaf, gan fod deall eu profiadau, eu heriau a'u hanghenion cymorth o ran eu llesiant a gwybodaeth am sut i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr yn hanfodol i wreiddio'r Fframwaith yn llwyddiannus. Mae hyn yn tynnu sylw at werth arolwg pwrpasol ar gyfer y grŵp hwn.

Tynnwyd sylw at ffynonellau data pellach a allai helpu i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd. Mae ymarferwyr sy'n cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff (e.e., cydlynwyr gweithredu, timau Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant, a thimau Mewngymorth CAMHS) mewn sefyllfa dda i roi mewnwelediadau rheolaidd ar sut mae ysgolion yn cyflawni'r Fframwaith, yn ogystal ag anghenion cymorth a hyfforddiant staff. Dylid ystyried pa ddata ychwanegol y gallai'r ymarferwyr hyn ei ddarparu i wneud y mwyaf o'u mewnwelediadau. Yn ogystal, mae data ar lefel genedlaethol a gesglir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i olrhain tueddiadau eang wrth i'r Fframwaith gael ei ymgorffori, tra gallai data ar lefel leol o ysgolion, awdurdodau lleol, a'r haen ganol ddarparu mewnwelediadau mwy manwl er y byddai heriau o ran adnoddau a seilwaith i gasglu'r data hwn.

Cydnabyddir mai bwriad y model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan (gweler adran 1.1) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer mapio tystiolaeth a gynhaliwyd yn yr adroddiad hwn i nodi anghenion tystiolaethol heb eu diwallu, oedd i weithredu fel damcaniaeth raglen sy'n dod i'r amlwg a fyddai'n cael ei diwygio wrth i dystiolaeth werthuso ddod i'r amlwg. Bwriedir diweddarau model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan fel rhan o'r gwerthusiad a gynhelir gan y Ganolfan Wolfson ym Mhrifysgol Caerdydd tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2024/25. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y model yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'n gywir sut mae'r Fframwaith yn cael ei weithredu a'i ganlyniadau bwriadedig. Felly, gall yr anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd yn yr adroddiad hwn newid hefyd pan fydd y model rhesymeg hwn yn cael ei ddiweddarau.

Cam defnyddiol nesaf fyddai i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried datblygu cynllun ymchwil i fonitro a gwerthuso'r Fframwaith. Gallai'r cynllun ymchwil hwn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael ag anghenion tystiolaethol heb eu diwallu a nodwyd a ffynonellau data i fonitro cyflawniad ac effaith y Fframwaith.

5. Atodiad 1: Mapio gweithgareddau ymchwil a gwerthuso

Mae'r tablau isod yn nodi'r cydrannau (gweithgareddau, mecanweithiau, canlyniadau tymor byr/canolig, a chanlyniadau tymor hir) a nodwyd ym model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r tablau'n tynnu sylw at yr anghenion tystiolaethol sy'n gysylltiedig â phob cydran gan nodi pa anghenion sy'n cael eu diwallu ar hyn o bryd trwy weithgareddau ymchwil a gwerthuso cyfredol a pha rai nad ydynt. Mae'r rhain yn cynrychioli anghenion tystiolaethol posibl heb eu diwallu. Eglurir y dull o ddatblygu'r tabl yn fanylach yn adran 1.2.

5.1 Gweithgareddau

Hyrwyddwr / pwyllgor i arwain y gweithgaredd

Mae data ar gael ynghylch pwy fydd yn arwain y gwaith ar weithredu'r Fframwaith; yn ddibynnol ar ddehongliad yr ymatebydd, gallai'r data hwn awgrymu pwy yw arweinydd dull ysgol gyfan yr ysgol. Gofynnir hefyd pwy fydd yn rhan o gyflawni'r Fframwaith. Mae data ar gael hefyd ynghylch a oes gan ysgolion un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a llesiant dysgwyr a rôl yr unigolyn hwn yn yr ysgol. Bydd hyn yn caniatáu ymchwil bellach i ymchwilio i sut mae hyn yn amrywio yn ôl nodweddion ysgol ac a yw hyn yn effeithio ar ddull iechyd a llesiant yr ysgol (e.e., cyfathrebu ac ymgysylltu, gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau allanol).

Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu am bwy sy'n cymryd rhan ac yn arwain ar gyflawni / gweithredu'r fframwaith. Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chasglu am gyfrifoldebau arweinydd y dull ysgol gyfan a sut maen nhw'n cyflawni eu rôl. Gallai fod yn bwysig archwilio cyflawni'r rôl hon er mwyn ystyried yr effaith ar ddull ysgol gyfan yr ysgol. Gall rôl yr hyrwyddwr fod yn feichus o bosibl. Byddai'n ddefnyddiol gwybod sut mae ysgolion yn dyrannu adnoddau i ganiatáu i'r hyrwyddwr gyflawni ei rôl, yn ogystal â lefel y cymorth sydd ei angen ar hyrwyddwyr (e.e., hyfforddiant, cymorth gan uwch arweinwyr).

Mapio asedau / anghenion

Ar draws y prosiectau ymchwil, mae data'n cael ei gasglu ar nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn hunanwerthuso dull ysgol gyfan, gan gynnwys ffigurau ar ysgolion sy'n dechrau ac yn cwblhau eu gwaith hunanwerthuso, a'r rhai sy'n ymgorffori anghenion a nodwyd yn eu cynlluniau gweithredu / Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae yna hefyd wybodaeth o sampl o ysgolion sy'n amlinellu ffactorau sy'n bwysig ar gyfer cefnogi hunanwerthuso dull ysgol gyfan effeithiol. Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu i ddeall sut mae ysgolion yn defnyddio hunanwerthuso dull ysgol gyfan i lywio cynllunio gweithredu.

Y ffactorau allweddol i'w hymchwilio fyddai deall pwy sy'n arwain ar hunanwerthuso dull ysgol gyfan (er y gellir casglu hyn o bwy sy'n arwain ar waith cyffredinol y dull ysgol gyfan), sut mae cryfderau / anghenion yn cael eu nodi ar bob lefel o gymuned yr ysgol, sut mae ffynonellau data yn cael eu defnyddio i nodi angen, yn ogystal â sut mae ysgolion yn gwerthuso eu prosesau hunanwerthuso dull ysgol gyfan eu hunain i fesur effaith a gwella. Gellir casglu llawer o'r bylchau mewn tystiolaeth a awgrymwyd ar gyfer hunanwerthuso o

gwestiynau tebyg sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer iechyd a llesiant, neu waith dull ysgol gyfan cyffredinol. Fodd bynnag, gallai ffocws mwy penodol ar hunanwerthuso dull ysgol gyfan ganiatáu dealltwriaeth fwy gwybodus o sut olwg sydd ar hunanwerthuso dull ysgol gyfan cadarn a'i effaith ar fecanweithiau a chanlyniadau'r dull ysgol gyfan.

Cesglir data ar bwy sy'n cefnogi ysgolion i gynnal y broses hunanwerthuso dull ysgol gyfan. Gallai gwybodaeth fanylach am eu rôl yn y broses a sut maen nhw'n cefnogi ysgolion fod yn ddefnyddiol. Mae gwybodaeth ddeuaidd ar gael ynghylch a yw rhieni a phobl ifanc yn rhan o nodi meysydd blaenoriaeth y gellid eu gweld fel rhai sy'n gorgyffwrdd â hunanwerthuso'r dull ysgol gyfan a sut mae'r grwpiau hyn yn ymgysylltu (e.e., arolygon) i roi mewnbwn i bolisi ac ymarfer iechyd a llesiant. Ni ofynnir yn uniongyrchol am eu rôl a'u cyfranogiad penodol mewn perthynas â'r broses hunanwerthuso dull ysgol gyfan. Yn ogystal, gofynnir am rôl staff ysgolion mewn perthynas â gwaith dull ysgol gyfan cyffredinol, ond nid yn benodol ar gyfer hunanwerthuso dull ysgol gyfan.

Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu i ddeall beth sydd wedi'i nodi yn ystod hunanwerthusiad y dull ysgol gyfan a sut mae ysgolion yn defnyddio hyn i lywio cynllunio gweithredu a datblygu polisïau. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd yn cael ei chasglu mewn sampl o ysgolion ar rôl y fframwaith ar gyfer newidiadau yn y ddarpariaeth, a allai ddangos cynnwys y cryfderau a'r anghenion a nodwyd gan ysgolion fel rhan o'u hunanwerthusiad dull ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae bwlch tystiolaeth ar gyfer deall hyfforddiant parhaus staff ysgolion neu anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig ag iechyd emosiynol a meddyliol neu gyflawni rhaglenni / ymyriadau. Mae timau Mewngymorth CAMHS yn casglu gwybodaeth am nifer yr ysgolion sydd wedi ymgysylltu â nhw a hyfforddiant / ymgynghoriadau a ddarparwyd mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am y mathau o hyfforddiant sy'n cael eu darparu, er nad ydym yn rhagweld bod data systematig ar gael ar anghenion hyfforddi ar draws staff ysgolion sy'n gysylltiedig ag iechyd emosiynol a meddyliol neu ddarparu rhaglenni / ymyriadau. Y tu hwnt i hyn, ychydig iawn o wybodaeth sydd am y partneriaethau lleol neu'r asedau cymunedol y mae gan ysgolion berthnasoedd â nhw i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol drwy'r awdurdod lleol neu lwybrau eraill.

Adolygiad polisi

Mae gwybodaeth fanwl yn cael ei chasglu ar sampl o ysgolion i ddeall sut mae'r hunanwerthusiad dull ysgol gyfan a'r Fframwaith ei hun yn effeithio ar ddatblygiad polisïau ysgol, yn ogystal â synergedd ar draws polisïau perthnasol. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth am y meysydd newid sydd wedi'u nodi fel rhan o'r adolygiad polisi. Ar hyn o bryd, nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu i ddeall pa mor effeithiol y mae newidiadau i bolisïau ysgolion yn trosi'n newidiadau ystyrlon mewn arferion ysgolion ac yn y pen draw yn effeithio ar brofiadau dysgwyr a staff ysgolion.

Mae gwybodaeth a gesglir yn rheolaidd ar gael am gyfranogiad dysgwyr a rhieni/gofalwyr ar gyfer datblygu polisi ac arfer iechyd a llesiant mewn ysgolion, yn ogystal â'r ffynonellau data sy'n llywio diweddariadau gan gynnwys arolygon dysgwyr, staff ysgolion a rhieni. Casglwyd gwybodaeth ymhlith sampl fach o ysgolion i ddeall sut mae ysgolion yn defnyddio hunanwerthuso dull ysgol gyfan i lywio cynllunio gweithredu, yn ogystal â'r ffynonellau data

sy'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, mae diffyg gwybodaeth i ddeall pwy sy'n llywio'r adolygiad o bolisi'r ysgol, rôl yr uwch-dîm arweinyddiaeth a staff yr ysgol yn y broses hon (y tu hwnt i a yw arolygon rhanddeiliaid wedi llywio diweddariadau), a'r adnoddau a ddyrannwyd i gefnogi'r broses hon. Nid yw'r dull o fonitro ac adolygu parhaus i sicrhau effeithiolrwydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ychwaith.

Nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyd-destun ysgolion

Casglwyd gwybodaeth yn archwilio sut roedd ysgolion, ynghyd â chymorth gan awdurdodau lleol, yn nodi ymyriadau i'w gweithredu a'r heriau o ddewis ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Pecyn Cymorth Beth sy'n Gweithio wedi'i ddatblygu mewn ymateb i gefnogi ysgolion i nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am ymwybyddiaeth neu ddefnydd ysgolion o'r adnodd hwn. Fodd bynnag, mae bwlch yn y dystiolaeth yn parhau o ran gwybodaeth fanwl ynghylch sut mae ysgolion yn dewis ymyriadau neu sut mae ysgolion wedi nodi eu hanghenion i ddatblygu ymarfer pwrpasol.

Mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig ar gael ar ymyriadau y mae ysgolion yn eu darparu i ddysgwyr a staff ysgolion i gefnogi iechedd a llesiant meddyliol. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau dan arweiniad ysgolion y maent wedi'u datblygu eu hunain wedi'u haddasu i'w hanghenion. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y wybodaeth hon yn anghyson ac na fydd yn caniatáu golwg systematig ledled Cymru ar yr holl ymyriadau sy'n cael eu darparu. Ni fydd unrhyw arwydd ychwaith o ba mor hir y maent wedi cael eu cyflawni felly ni fydd yn bosibl priodoli i ddull ysgol gyfan yr ysgol. Nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei harchwilio mewn perthynas â sut mae ysgolion yn gwerthuso ymyriadau y maent yn eu gweithredu.

Cyfathrebu'r uwch dîm arweinyddiaeth â system yr ysgol gyfan

Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu am gyfranogiad a rôl athrawon a staff cymorth i ddatblygu a chyflawni'r Fframwaith. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu naill ai fel rhan o waith casglu data ansoddol neu'n cael ei darparu o safbwynt uwch arweinwyr, felly mae cyfle i gasglu data rheolaidd o safbwynt staff ysgolion ar eu rôl yn y ddarpariaeth. Mae bwlch yn y dystiolaeth hefyd ynghylch y 'gefnogaeth' gan staff ysgolion i ddull ysgol gyfan yr ysgol o safbwynt y staff. Gallai hyn gynnwys ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff yr ysgol o ddull ysgol gyfan yr ysgol a'u rôl i gyflawni hyn, yn ogystal â'u hyder a'u cymhelliant i gyflawni hyn.

Mae rhywfaint o dystiolaeth ddiweddar ar gyfranogiad rhieni / gofalcwyr a dysgwyr (a chyfranogiad staff ysgolion) mewn gwaith dull ysgol gyfan fel rhan o gasglu data SHRN diweddar, er na fydd data cyfres amser ar gyfer y mesurau hyn i'w monitro i fesur newidiadau ers cyflwyno'r Fframwaith. Fodd bynnag, mae llawer o wybodaeth yn cael ei chasglu ar raddfa'r cyfranogiad ac ymgysylltiad â rhieni / gofalcwyr a dysgwyr ar gyfer gweithgarwch iechedd a llesiant yr ysgol yn gyffredinol, gan gynnwys a oes arweinyddiaeth ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd (a'r gymuned ehangach). Er bod hyn yn canolbwyntio ar iechedd a llesiant yn ehangach, gellid casglu ymgysylltiad â'r dull ysgol gyfan o hyn. Fodd bynnag, darperir yr holl wybodaeth hon gan uwch arweinwyr yn hytrach nag yn uniongyrchol gan rhieni / gofalcwyr a dysgwyr. Mae yna hefyd rywfaint o waith ansoddol yn cael ei wneud

sy'n cynnwys archwilio ymgysylltiad teuluol sy'n newydd ers cyflwyno'r Fframwaith. Mae yna hefyd rywfaint o wybodaeth wedi'i chasglu gan ddysgwyr yn gofyn iddynt am eu cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol ac a ydynt yn teimlo bod staff yr ysgol yn gwrandao arnynt. Mae angen tystiolaeth fanylach gan bob grŵp rhanddeiliaid i werthuso ymgysylltiad dysgwyr a theuluoedd i gynllunio camau gweithredu.

Mae gwybodaeth ansoddol yn cael ei chasglu am sut mae ysgolion yn cyfleu eu negeseuon allweddol ynghylch y dull ysgol gyfan i staff. Mae cyfleoedd pellach i gasglu data rheolaidd cadarn ar y graddau y mae cyfathrebu ysgol gyfan yn cael ei raeadru ledled cymuned yr ysgol a sut mae hynny'n cael ei wneud. Gellid casglu mwy o dystiolaeth hefyd ynghylch pwy sy'n arwain y cyfathrebu hwn (e.e., hyrwyddwr dull ysgol gyfan, y yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth). Yn berthnasol i hyn, gellid casglu mwy o wybodaeth yma o ran sut mae ysgolion yn ymgorffori barn y grwpiau hyn yn eu gwaith dull ysgol gyfan. Mae bwlch yn y dystiolaeth i deall pa mor effeithiol yw'r cyfathrebu hwn wedi bod o safbwynt staff ysgolion, rhieni a dysgwyr; hynny yw, i ba raddau mae negeseuon allweddol ysgolion am eu dull a'u gweithgareddau ysgol gyfan yn cyrraedd y grwpiau hyn, a ydynt yn cael eu deall, a beth oedd eu heffaith.

Hyfforddiant staff ysgolion

Mae gwybodaeth sylfaenol ar gael am nifer yr ysgolion sydd wedi cael eu hymgysylltu a'r hyfforddiant / ymgynghoriadau a ddarparwyd mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am y mathau o hyfforddiant sy'n cael eu darparu, er nad ydym yn rhagweld bod data systematig ar gael ar anghenion hyfforddi ar draws staff ysgolion sy'n gysylltiedig ag iechyd emosiynol a meddyliol neu ddarparu rhaglenni / ymyriadau. Mae'r dystiolaeth hon hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth cyn ac ar ôl i asesu effaith hyfforddiant. Mae tystiolaeth ar gael hefyd ar gyfer y ganran o staff ysgolion sydd wedi derbyn hyfforddiant yn benodol i gydnabod ac ymateb i effaith trawma plentyndod.

Byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am sut mae ysgolion yn blaenoriaethu ac yn nodi anghenion hyfforddi eu staff, sut mae anghenion y dysgwyr yn dylanwadu ar hyn, a sut mae'r anghenion hyfforddi hyn yn cael eu diwallu. Mae bwlch yn y dystiolaeth o ran deall lefel bresennol gwybodaeth a hyder staff ysgolion i gefnogi problemau iechyd meddwl lefel isel dysgwyr a sut y gellir monitro hyn. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant a chyflwyno darpariaeth ystafell ddosbarth gyffredinol i gefnogi llesiant dysgwyr. Er bod uwch arweinwyr yn darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi iechyd a llesiant meddyliol staff ysgolion, nid oes data ar gael gan staff ysgolion ar eu hymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon nac ym mha ffordd arall y gallant gefnogi eu hiechyd a'u llesiant meddyliol eu hunain. Yn yr un modd, mae bwlch yn y dystiolaeth ar gyfer dealltwriaeth staff ysgolion o'r ddarpariaeth sydd ar gael, y llwybrau atgyfeirio / gofal lleol, a rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a enwir mewn systemau lleol. Yn olaf, mae bwlch tystiolaeth o ran deall sut mae dull ysgol gyfan wedi'i ymgorffori mewn AGA a sut mae prifysgolion / ysgolion yn addasu, yn adeiladu ar, ac yn cyflwyno'r wybodaeth hon.

Meithrin perthnasoedd â gwasanaethau iechyd meddwl allanol

Mae gwybodaeth ar gael am amllder cyfathrebu CAMHS ag ysgolion. Mae hyn yn cael ei ategu gan wybodaeth am raddfa a natur yr ymgysylltiad â chydlynwyr mewngymorth CAMHS. Roedd gwybodaeth ar gael yn flaenorol am nifer yr atgyfeiriadau i CAMHS, ond rhoddwyd y gorau i ryddhau'r data hwn oherwydd bod newidiadau i ailgynllunio gwasanaethau ar draws Byrddau Iechyd Lleol i fodel un pwynt mynediad yn golygu bod y data hwn yn cael ei adrodd o dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 fel atgyfeiriadau i Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol. Mae gwybodaeth reolaidd ar gael hefyd ynghylch a oes gan ddysgwyr fynediad at seicolegydd addysgol a gwasanaethau cwnsela lleol (ar wahân i ddarpariaeth cwnsela yn yr ysgol). Y tu hwnt i hyn, mae gwybodaeth gyfyngedig am y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol allanol y mae gan ysgolion berthynas â nhw ac y maent yn cyfeirio atynt amlaf. Disgwylir bod hyn wedi cael ei archwilio fel rhan o fapio cryfderau / asedau.

Mae data ar gael ynghylch a oes gan ysgolion arweinyddiaeth ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, a allai gynnwys perthnasoedd â gwasanaethau allanol. Byddai'n ddefnyddiol cofnodi'r dull y mae ysgolion yn ei gymryd o ran defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl allanol o fewn eu dull ysgol gyfan (gan gynnwys heriau ynghylch adnoddau a mynediad) a sut maen nhw'n meithrin perthnasoedd â'r gwasanaethau hyn. Gallai'r dystiolaeth hon hefyd gofnodi sut mae ysgolion yn nodi ac yn penderfynu pa bartneriaethau i'w blaenoriaethu fel rhan o'u gwaith o fapio cryfderau ac anghenion. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae bwlbach yn y dystiolaeth ar gyfer dealltwriaeth staff ysgolion o'r ddarpariaeth sydd ar gael, y llwybrau atgyfeirio / gofal lleol, a rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a enwir mewn systemau lleol. Yn ogystal, hyd y gwyddom ni, nid oes cofnod o anghenion hyfforddi staff ysgolion mewn perthynas ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael a llwybrau atgyfeirio.

Adnoddau

Mae gweithgarwch ymchwil a gwerthuso ar hyn o bryd yn archwilio pwy sy'n arwain ar gyflawni / gweithredu'r Fframwaith ac a oes gan ysgolion un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a llesiant dysgwyr a rôl yr unigolyn hwn yn yr ysgol. Gallai hyn roi cipolwg ar yr adnoddau a'r ffocws sy'n cael eu neilltuo i ddatblygu a chyflawni dull ysgol gyfan yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bellach am rôl arweinydd / hyrwyddwr y dull ysgol gyfan (neu arweinydd iechyd a llesiant) i ddeall yr amser a neilltuwyd i gyflawni'r Fframwaith, na sut mae ysgolion yn dyrannu adnoddau pellach i gyflawni'r Fframwaith. Cesglir gwybodaeth yn rheolaidd ar y meysydd lefel uchel y mae ysgolion yn eu blaenoriaethu ar gyfer gwelliant, sy'n cynnwys iechyd a llesiant dysgwyr a staff ysgolion. Byddai'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth am sut mae ysgolion yn nodi ac yn blaenoriaethu'r dyraniad adnoddau tuag at wahanol gydrannau o'r dull ysgol gyfan (e.e. hyfforddi staff ysgolion, gwasanaethau cwnsela, ymyriadau cyffredinol a/neu dargededig), yn enwedig o ystyried effaith pwysau cyllidebol parhaus a gofynion i gyflawni rhaglenni addysgol ychwanegol (e.e. Cwricwlwm i Gymru, diwygio cod Anghenion Dysgu Ychwanegol). Mae data cyfyngedig wedi'i gasglu ynghylch a yw ysgolion wedi cael mynediad at gyllid dull ysgol gyfan a ddyrannwyd i awdurdodau lleol a sut maen nhw wedi defnyddio hwn. Byddai gwybodaeth fanylach am sut mae ysgolion yn dyrannu adnoddau dull ysgol gyfan yn ddefnyddiol. Byddai rhagor o wybodaeth am sut mae ysgolion yn goresgyn heriau o ran

adnoddau i fanteisio ar bartneriaethau â sefydliadau allanol fel elusennau lleol neu sefydliadau trydydd sector yn ddefnyddiol. Un o'r heriau allweddol y mae ysgolion yn eu hwynebu a nodwyd o'r gweithgaredd ymchwil yw sut y gallant ddarparu adnoddau ar gyfer mentrau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ysgolion i'w helpu i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a'u hunain. Byddai rhagor o dystiolaeth yn ystyried sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn goresgyn yr her hon i ddarparu adnoddau hyfforddiant i'w staff, o ran costau hyfforddi a thalu dyletswyddau addysgu staff, yn werthfawr.

Mae tystiolaeth wedi'i chasglu ar nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu â chydlynwyr gweithredu. Mae ysgolion wedi darparu gwybodaeth am bwy sy'n eu cefnogi i gwblhau eu hunanwerthusiad o'r dull ysgol gyfan a gweithredu'r fframwaith. Casglwyd data hefyd gan ofyn i ysgolion am amlder a boddhad â chymorth gan gydlynwyr gweithredu / tîm Ysgolion sy'n hybu lechyd a Llesiant, yn ogystal â thimau Mewngymorth CAMHS. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth fanwl sydd ar gael am union natur y cymorth hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am nifer yr ysgolion y mae tîm Mewngymorth CAMHS wedi ymgysylltu â nhw. Disgwylir i hyn gynnwys gwybodaeth fanylach am y cymorth sydd wedi'i ddarparu, gan gynnwys hyfforddiant sydd wedi'i gyflwyno i staff ysgolion.

5.2 Mekanweithiau

Er mwyn osgoi dyblygu, nodwn fod y mecanweithiau canlynol a nodwyd yn y model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan yn cael eu trafod mewn adrannau eraill:

- cysylltedd yr ysgol (gweler yr adran Ethos / diwylliant cadarnhaol)
- hyfforddiant staff ysgol i gynyddu'r gallu i gefnogi dysgwyr (gweler Hyfforddiant staff ysgol)
- gweithgareddau ystafell ddosbarth sy'n seiliedig ar dystiolaeth (gweler Nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer yr ysgol)
- llwybr atgyfeirio clir i systemau iechyd meddwl cymunedol (gweler Meithrin perthnasoedd â gwasanaethau iechyd meddwl allanol)
- nodi meysydd newid drwy adolygiad polisi/cynllun gweithredu (gweler Adolygiad polisi)
- ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd i gynllunio camau gweithredu (gweler cyfathrebu'r uwch dîm arweinyddiaeth â system yr ysgol gyfan).

Ethos / diwylliant cadarnhaol

Mae llawer o agweddau ar ethos / diwylliant cadarnhaol a natur gysylltiedig ysgol eisoes yn cael eu cofnodi o safbwynt dysgwyr fel rhan o arolwg SHRN, a fydd yn caniatáu dadansoddiad hydredol. Casglwyd gwybodaeth ansoddol hefyd sydd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y ffactorau hyn ar gyfer cyflawni'r Fframwaith yn effeithiol. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel y dysgwr i ddeall y perthnasoedd cadarnhaol a charedig rhwng dysgwyr, yn ogystal ag a all dysgwyr siarad yn onest ag o leiaf un aelod o staff yr ysgol. Mae cwestiynau hefyd yn gofyn i ddysgwyr am eu canfyddiadau o ran a yw pobl yn gwrando arnyn nhw yn yr ysgol ac a oes ganddyn nhw gyfle i gyfrannu at benderfynu, cynllunio a threfnu gweithgareddau a phrosiectau ysgol. Cesglir gwybodaeth i ddeall i ba raddau y

maent yn teimlo dan bwysau oherwydd y gwaith ysgol a ddarperir iddynt ac a oes cymorth ar gael i gefnogi eu llesiant emosiynol a meddyliol. Casglwyd gwybodaeth sydd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant cadarnhaol ac agored o fewn ysgol ar gyfer cyflawni'r Fframwaith yn llwyddiannus. Amgylchedd derbyniol a chynhwysol: Cesglir tystiolaeth ynghylch a yw dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn fel y maent gan ddysgwyr eraill a'u hathrawon. Gellid casglu rhagor o dystiolaeth i ddeall canfyddiad dysgwyr ynghylch a yw eu hysgol yn dathlu ac yn croesawu amrywiaeth ymhlith dysgwyr a staff yr ysgol. Cesglir canfyddiadau gan ddysgwyr ynghylch a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n perthyn yn eu hysgolion, a yw athrawon yn gofalu amdany'n nhw ac a ydyn nhw'n hoffi mynychu'r ysgol. Casglwyd gwybodaeth sydd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ymdeimlad o berthyn ar draws pob lefel ar gyfer cyflawni'r Fframwaith yn llwyddiannus. Cesglir gwybodaeth ynghylch a yw dysgwyr wedi profi aflonyddu rhywiol, cyswllt rhywiol digroeso, neu fwlio yn yr ysgol. Gofynnir i ddysgwyr a yw athrawon yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i aflonyddu rhywiol ac a ydynt yn teimlo y gallant ymddiried mewn athrawon. Ni chesglir unrhyw dystiolaeth ynghylch a yw athrawon yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i gyswllt rhywiol digroeso neu fwlio yn yr ysgol. Cesglir tystiolaeth i ddeall i ba raddau y mae'r ysgol yn defnyddio ymarfer adferol cadarnhaol i reoli gwrthdaro ac atgyweirio niwed, yn ogystal ag a yw ysgolion yn defnyddio technegau mwy cosbol, yn benodol ynysu, i reoli ymddygiad dysgwyr. Cesglir tystiolaeth hefyd i ddeall a oes cymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol arbenigol ar gael i staff ysgolion ac a ddarperir ymyriadau llesiant i staff.

Gellid casglu gwybodaeth fanylach gan grwpiau eraill yng nghymuned yr ysgol i ddarparu mwy o dystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae ysgolion wedi datblygu ethos / diwylliant cadarnhaol ac agored a sut mae hyn yn weladwy i bawb. Gallai hyn hefyd roi cipolwg ar a oes llai o stigma tuag at drafod iechyd meddwl yng nghymuned yr ysgol. Ar lefel yr ysgol, mae gwybodaeth ansoddol yn cael ei chasglu ar hyn o bryd fel rhan o astudiaethau achos i ystyried y defnydd o iaith a'r gostyngiad canfyddedig mewn stigma ynghylch iechyd meddwl o fewn dogfennaeth yr ysgol. Gellid casglu rhagor o wybodaeth gan uwch arweinwyr i ddeall sut maen nhw'n sicrhau bod yr ysgol yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn, a sut mae polisïau a gweithgareddau'r ysgol yn adlewyrchu neges gadarnhaol a chyfannol allweddol yr ysgol am iechyd meddwl a llesiant emosiynol (mae hynny'n fusnes i bawb). I staff ysgolion, gellid casglu gwybodaeth i ddeall i ba raddau y maent yn teimlo bod eu llesiant emosiynol a meddyliol eu hunain a llesiant cydweithwyr yn cael ei gefnogi a'u canfyddiad o amgylchedd yr ysgol. I ddysgwyr, byddai'n ddefnyddiol archwilio sut mae'r ethos cadarnhaol hwn yn amlygu ei hun o fewn agweddau ar eu hysgolion (h.y., o gyrraedd, trwy gydol gwersi ac amseroedd chwarae/egwyl, i ymadael), gan gynnwys darpariaeth gyffredinol neu ymyrraeth dargededig sydd ar gael iddynt i gefnogi eu hanghenion llesiant. Byddai'n ddefnyddiol casglu tystiolaeth gan rieni i ddeall sut maen nhw'n gallu ymgysylltu â chymuned yr ysgol i gefnogi llesiant eu plentyn a'u canfyddiadau o amgylchedd yr ysgol mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol.

Perthnasoedd gwell rhwng staff ysgolion a dysgwyr

Gofynnir i ddysgwyr am eu perthnasoedd â'u cyfoedion a'u hathrawon fel rhan o waith casglu data SHRN. Bydd y data hwn yn caniatáu archwilio a yw'r berthynas rhwng staff ysgolion ac ymysg myfyrwyr wedi gwella dros amser. Cesglir tystiolaeth ar farn dysgwyr

ynghylch a yw athrawon yn gofalu amdany'n nhw, yn eu derbyn, ac a yw dysgwyr yn ymddiried ynddyn nhw ac yn gallu siarad â nhw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata o safbwynt athrawon, er bod data'n cael ei gasglu'n flynyddol gan uwch arweinwyr ynghylch a yw'r berthynas rhwng staff yr ysgol a myfyrwyr yn cael ei gweld fel un o'u meysydd blaenoriaeth allweddol.

Cesglir gwybodaeth ynghylch a yw dysgwyr yn mwynhau bod gyda'i gilydd, a ydynt yn cael eu derbyn, ac a yw dysgwyr eraill yn garedig ac yn gymwynasgar.

Mae bwlch yn y dystiolaeth ar gyfer deall barn staff ysgolion ar eu perthnasoedd â'u cydweithwyr a faint o gefnogaeth maen nhw'n ei theimlo.

Monitro a gwerthuso – wedi'u halinio â'r fframwaith arolygu

Cesglir data ynghylch a yw dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth adolygu cynnydd / gwerthuso camau gweithredu a mentrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant. Cesglir gwybodaeth hefyd am y ffynonellau data a ddefnyddir gan ysgolion i ddiweddarau eu polisïau a'u harferion ar greu ysgol iach, pwy sy'n defnyddio'r data hwn, ac at ba ddiben, gan gynnwys mesur effaith gwaith yr ysgol ar greu ysgol iach. Gall y wybodaeth hon roi syniad o'r grwpiau rhanddeiliaid (uwch dîm arweinyddiaeth, staff yr ysgol, dysgwyr, rhieni) sy'n cael eu cynnwys ac ar ba ffurf fel rhan o werthuso dull yr ysgol o ymdrin ag iechyd a llesiant, er y byddai gwybodaeth fwy penodol am gyfranogiad rhanddeiliaid yng ngwerthusiad o ddull ysgol gyfan yr ysgol yn fuddiol.

Bydd yn bwysig deall sut mae ysgolion yn monitro, adolygu a gwerthuso eu dull ysgol gyfan. Gallai hyn gynnwys sut mae ysgolion yn meithrin capasiti yn eu gweithlu i gynnal gwerthusiad ac ymgorffori dangosyddion effaith yn eu cynlluniau monitro a gwerthuso, yn ogystal â sut mae hyn yn gorgyffwrdd â'r safonau cenedlaethol arfaethedig ar gyfer y rhaglen Ysgolion sy'n hybu Iechyd a Llesiant.

Dull o wella'n barhaus: Mae rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig yn cael ei chasglu i ddeall a yw ysgolion yng nghyfnod gwerthuso eu dull ysgol gyfan. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol deall sut mae cynlluniau monitro a gwerthuso ysgolion yn cyd-fynd â'u hymdrechion gwella ysgol ehangach, a sut mae canfyddiadau gwerthuso yn cael eu hintegreiddio i'w strategaethau ehangach ar gyfer gwella llesiant emosiynol a meddyliol. Gellid casglu tystiolaeth hefyd ynghylch pwy sy'n arwain y gwerthusiad

5.3 Canlyniadau tymor byr / canolig

Er mwyn osgoi dyblygu, nodwn fod y canlyniadau tymor byr / canolig canlynol a nodwyd ym model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan yn cael eu trafod mewn adrannau eraill:

- synergedd ar draws polisïau perthnasol (gweler Adolygiad polisi)
- mwy o ymgysylltiad â dysgwyr a theuluoedd (gweler cyfathrebu'r uwch dîm arweinyddiaeth â system yr ysgol gyfan)
- mwy o ymrwymiad gan staff ysgolion (gweler cyfathrebu'r uwch dîm arweinyddiaeth â system yr ysgol gyfan)

- atgyfeiriadau gwell at wasanaethau cymorth – adnabod yn gynharach (gweler Meithrin perthnasoedd â gwasanaethau iechyd meddwl allanol a staff ysgolion yn fwy parod i gefnogi dysgwyr)
- diwylliant arsylwadwy o fod yn agored ynghylch iechyd meddwl (gweler Ethos / diwylliant cadarnhaol)
- proses adolygu ar gyfer cynlluniau gweithredu a pholisïau (gweler Adolygiad polisi).
- cynllun gwerthuso, gan gynnwys defnyddio data arferol (gweler yr adran Monitro a gwerthuso)

Staff ysgolion yn fwy parod i gefnogi dysgwyr

Mae bwch yn y data sy'n cael ei gasglu i ddeall iechyd meddwl a llesiant staff ysgolion, gan gynnwys llinell sylfaen i gymharu yn ei herbyn. Mae rhywfaint o ddata wedi'i gasglu gan Education Support ar gyfer staff ysgolion yng Nghymru fel rhan o'u Mynegai Llesiant Athrawon y gellir ei archwilio dros amser. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r data hwn gan nad yw maint y sampl yn gynhwysfawr yng Nghymru ac mae'n hunan-ddetholus.

Mae gwybodaeth ansoddol yn cael ei chasglu am hyder a gallu staff ysgolion i gefnogi dysgwyr. Mae bwch mewn data rheolaidd cadarn i ddeall pa mor barod yw staff ysgolion i gefnogi dysgwyr gan gynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol, yn ogystal â llinell sylfaen i gymharu yn ei herbyn i archwilio unrhyw newidiadau ers cyflwyno'r Fframwaith.

Bwriedir casglu data gan dîm arweinyddiaeth uwch / athrawon gan dimau Mewngymorth CAMHS fel rhan o ymgynghoriadau ag ysgolion. Bydd y data a gesglir yn ddata cyn ac ar ôl yr arolwg yn gofyn am effaith yr ymgynghoriadau a bydd yn cynnwys cwestiynau am ddealltwriaeth a hyder staff ysgolion ynghylch anawsterau iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a sut i'w cefnogi. Gofynnir hefyd i staff ysgolion am eu hymwybyddiaeth a'u hyder i atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol, yn ogystal ag effaith yr ymgynghoriad ar atgyfeiriadau ysgolion i'r gwasanaethau hyn. Byddai'n ddefnyddiol casglu rhagor o ddata ar effaith y gwasanaethau hyfforddi a chysylltu a gynigir fel rhan o Mewngymorth CAMHS.

Mae cyfleoedd i gasglu gwybodaeth am lesiant staff ysgolion a pha mor barod ydynt i gefnogi dysgwyr o ddata a gesglir yn rheolaidd. Ni fydd y data hwn yn dynodi achosiaeth, a gall fod heriau gyda'r dehongliad, ond gall roi syniad o dueddiadau. Mae data hefyd ar gael sy'n archwilio absenoldeb salwch athrawon yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd gweithlu sy'n fwy iach yn feddylol yn cymryd llai o ddiwrnodau o absenoldeb salwch. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn caniatáu inni archwilio'r rheswm dros yr absenoldeb oherwydd salwch. Er bod data ar gael ar y niferoedd cyffredinol a atgyfeiriwyd at CAMHS, byddai gwybodaeth fanylach am atgyfeiriadau aflwyddiannus at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol a'r rheswm (e.e., atgyfeiriad amhriodol) yn ein helpu i ddeall pa mor barod yw staff ysgolion i gyfeirio dysgwyr at gymorth iechyd meddwl arbenigol priodol, ar yr amser cywir, ac i ddarparu'r wybodaeth gywir. Gall gwybodaeth sy'n ymwneud â maint, natur ac amllder hyfforddiant staff ysgolion, a gesglir efallai fel rhan o archwilio effaith Mewngymorth CAMHS, gynnig mewnwelediadau ar ba mor gymwys yw staff ysgolion i gefnogi anghenion llesiant dysgwyr.

Gallai data ar lefel yr awdurdod lleol neu ar lefel ysgol ar nifer y staff ysgol sy'n cael mynediad at gymorth llesiant mewnol helpu ein dealltwriaeth o ba mor barod yw staff i'w defnyddio. Byddai angen dehongli'r data hwn yn sensitif; er enghraifft, gallai galw cynyddol am gymorth adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth neu agoredrwydd ynghylch iechyd meddwl yn hytrach na dirywiad mewn iechyd meddwl ymhlith y gweithlu.

Newidiadau yn y ffordd y mae dysgwyr yn ceisio cymorth

Cesglir data ar nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Mae'r data hwn hefyd yn nodi am ba hyd y mae'r bobl ifanc yn ymgysylltu â gwasanaethau cwnsela, faint o benodau maen nhw'n eu derbyn, a'r niferoedd sy'n cael eu hatgyfeirio wedyn at CAMHS arbenigol. Mae'r data hwn yn rhoi mewnwelediad i nifer y dysgwyr sy'n ceisio cymorth ar gyfer eu llesiant emosiynol a meddyliol. Mae cyfyngiadau i'r data hwn o ran deall ymddygiadau ceisio cymorth. Nid yw'r data yn rhoi mewnwelediad i nifer y plant a'r bobl ifanc a wrthododd fynychu cwnsela neu a fethodd â mynychu neu gwblhau penodau o gwnsela, sy'n cyfyngu ar ein dealltwriaeth o'r plant hynny sydd angen cymorth ond nad ydynt yn ei geisio. Dylid nodi y bydd angen dehongli unrhyw newidiadau yn y niferoedd sy'n cael mynediad at gwnsela neu sy'n cael eu hatgyfeirio atynt yn ofalus gan nad yw o bosibl yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn ymddygiad ceisio cymorth mewn dysgwyr. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer plant o dan Flwyddyn 6 ychwaith.

Mae sawl cwestiwn wedi'u casglu yn y SHRN a all gasglu agweddau dysgwyr tuag at ymddygiad ceisio cymorth y gellir eu harchwilio dros amser. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn a all dysgwyr siarad ag athrawon am eu pryderon, trais mewn perthynas, ac a oes cymorth i ddysgwyr sy'n cael trafferth emosiynol. O ran y data cwnsela a drafodwyd uchod, mae'r data'n fwy cyfyngedig ar gyfer plant iau gan mai dim ond y cwestiwn ynghylch a oes gan ddysgwyr oedolyn y gallant siarad ag ef a ofynnwyd ar gyfer plant oedran cynradd a dim ond yn y cam diweddaraf o'r arolwg y mae data ar gael. Gallai'r mesurau agweddol hyn fod yn well dangosydd o stigma tuag at iechyd meddwl yn hytrach na bod yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag ymddygiadau ceisio cymorth.

Gellid casglu rhagor o wybodaeth ar lefel ysgol i ddeall nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad at eu cymorth mewnol neu eu bod yn atgyfeirio cymorth iechyd meddwl allanol. Efallai y bydd y data hwn ar gael ar lefel awdurdod lleol neu ysgol a byddai angen ymarfer mapio penodol yn ôl pob tebyg.

5.4 Canlyniadau hirdymor

Er mwyn osgoi dyblygu, nodwn fod y canlyniadau hirdymor canlynol a nodwyd ym model rhesymeg rhaglen y dull ysgol gyfan yn cael eu trafod mewn adrannau eraill:

- gwelliannau yn iechyd meddwl a llesiant staff ysgolion (gweler Staff ysgolion yn fwy parod i gefnogi dysgwyr)
- seilwaith gwerthuso cynaliadwy ac adolygiad rheolaidd o ddata (gweler Monitro a gwerthuso – wedi'u halinio â'r fframwaith arolygu)

- datblygu capasiti yn y gweithlu – Cymorth iechyd meddwl (gweler Staff ysgolion yn fwy parod i gefnogi dysgwyr)
- datblygu capasiti – gwerthuso a defnyddio data (gweler Monitro a gwerthuso – wedi'u halinio â'r fframwaith arolygu)
- seilwaith cyflawni cynaliadwy ar gyfer ymyrraeth (gweler Nodi a chyflawni ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyd-destun ysgol a Meithrin perthnasodd â gwasanaethau iechyd meddwl allanol)

Gwelliant mewn iechyd meddwl a llesiant dysgwyr

Mae data'n cael ei gasglu fel rhan o SHRN gan ddysgwyr ar draws ystod o fesurau iechyd meddwl a llesiant. Bydd y data hwn yn caniatáu dadansoddiad cyfres amser o iechyd meddwl dysgwyr mewn ysgolion uwchradd, gyda data ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yn cael ei gasglu yn y cam diweddaraf yn unig. Ni fydd y data hwn yn casglu achosiaeth o gyflwyniad y Fframwaith.

Llai o stigma ynghylch iechyd meddwl

Ni ofynnir unrhyw fesurau agwedd uniongyrchol yn SHRN ynghylch dull pob ysgol na'u hagoredrwydd i drafod iechyd a llesiant meddyliol gan ddysgwyr nac uwch arweinwyr, er y gellir casglu hyn o sawl cwestiwn arall am ethos a diwylliant yr ysgol (gweler 0Ethos a diwylliant cadarnhaol') ac o fesurau o ymddygiad dysgwyr a staff ysgolion o ran ceisio cymorth (gweler Newidiadau yn y ffordd y mae dysgwyr yn ceisio cymorth).

Canlyniadau addysgol gwell

Mae'r data hwn yn cael ei archwilio fel rhan o werthusiad y Ganolfan Wolfson, ond bydd yn heriol priodoli newidiadau mewn cyrhaeddiad addysgol i weithredu'r dull ysgol gyfan o ystyried diwygiadau addysgol ehangach a ddigwyddodd ar yr un pryd (e.e., Cwricwlwm i Gymru, diwygio cod Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Yn y tymor hwy, y lle naturiol i archwilio'r cysylltiad rhwng dull ysgol gyfan ar lefel ysgol a data addysgol fyddai trwy gysylltu data fel yn SAIL.